# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 316

Chwefror 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH




Eddie a Bethan Jones, Llywyddion noson godi arian ddiweddar yn Neuadd Rhydypennau (gweler tudalen 7)

## ENILLYDD YSGOLORIAETH



Enillydd Ysgoloriaeth Goffa Tom Gravell eleni yw Felipe Glyn Irianni, o'r Gaiman (rhoddir ysgoloriaeth yn flynyddol i fyfyriwr o'r Wladfa i fynychu Coleg Llanymddyfri am dymor).

Mae Felipe, sy'n 17 oed, yn ddigybl yng Ngholeg Camwy yn y Gaiman. Ddeng mlynedd yn ôl bu ef a'i chwaer Camila a'u mam yn byw yn Llanbadarn Fawr am chwe mis tra roedd y tad, Ricardo Irianni, yn treulio bwyddyn yn cwblhau gradd M Sc yn y Brifysgol. Mynychodd Camila a Felipe Ysgol Gymraeg Aberystwyth tra buont yma. Mae gan Felipe gysylltiad â'r ardal hon gan i'w hen hen daid — John Morgan James — fynd allan o Aberpaithnant, Ponterwyd i'r Wladfa ar y llong Vesta ym 1886 Mae gan Felipe nifer o deulu a ffrindiau yn yr ardal hon ac mae'n gobeithio cael cyfle i weld nifer ohonynt cyn dychwelyd i'r Gaiman ddiwedd Mawrth. Bu farw John Morgan James pan oedd ei fab, Richard James (hen daid Felipe) yn un ar ddeg oed ac fel canlyniad nid oedd llawer o wybodaeth ar gael gan y teulu

Mae gwely a berfa a gludwyd allan i'r Wladfa yn dal yn fferm y teulu - Treborth, yn Nolavon.

Yn y llun gydag ef mae Ian Hunt, Warden y Coleg, Elinor Farn Davies o Gapel Bangor (Prif Eneth y Coleg eleni) a Ceitho Anwyl Williams, o Lanymddyfri (disgybl yn nosbarth 6). Daw cyfle ym mis Gorffennaf i Elinor a chyd- ddisgybl — Roberta Morgan ddaw o Gaerfyrddin — i ymweld â'r Wladfa.

## ENILLYDD YN SYDNEY




Llongyfarchiadau i Elinor Thorogood, Glan Ceulan, Penrhyn-coch, a oedd yn aelod o dîm merched Prydain yng Ngŵyl Olympaidd yr Ifanc yn Sydney yn ddiweddar.Yn ystod yr un wythnos daeth yn ugeinfed yn y gystadleuaeth unigol i ferched.

Mae Elinor yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Pen-glais lle roedd y Pennaeth, staff a'u disgyblion yn hynod falch o'i llwyddiant. Yr un modd mae pentrefwyr Penrhyn-coch yn dymuno ei llongyfarch. Yn ôl Lynwen Jenkins " Mae'n wych fod Elinor yn rhoi Penrhyn-coch ar y map trwy ei llwyddiant mewn chwaraeon rhyngwladol".

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 316 | Chwefror 2009

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MAWRTH 5** A **MAWRTH 6** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **MAWRTH 19**

**CHWEFROR 19** Nos Iau Hawys Tomos Ar wib i Botswana Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30

**CHWEFROR 19** Nos Iau 'Llais cenedl' – teyrnged i John Roberts Williams yn Drwm LLGC AM 7.30 Mynediad am ddim drwy docyn ☎ 632548

**CHWEFROR 20** Nos Wener Noson o 'Hen Luniau' - Iwan Meical Jones Cymdeithas Lenyddol y Garn

**CHWEFROR 20-21** Nosweithiau Gwener –Sadwrn

Bara Caws yn cyflwyno'Dal i bwmpio' (Eilir Jones) yng Nghanolfan Gymdeithasol Machynlleth am 7.30. Tocynnau – Nia 01654 03944 neu 01654 511 865

**CHWEFROR 20-22** Dyddiau Gwener i Sul Côr Cymru – Canolfan y Celfyddydau

**CHWEFROR 24** Nos Fawrth Ynyd Noson Grempog gydag adloniant i ddilyn gan Nia a Heledd yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 7.00-8.00

**CHWEFROR 25** Ffilm awr ginio: Cwm tawelwch. Erwyd Howells yn cyflwyno'r rhaglen a wnaedyny chwedegau cynnar ychydig cyn boddi Nant-y-moch yn Drwm LLGC am 1.15 Mynediad am ddim drwy docyn ☎ 632548

**CHWEFROR 26** Nos Iau O'r Bont Fawr i Odre'r Hafan: taith hanesyddol drwy Gwm Eleri; ffilm o Gwilym Jenkins, Tal-y-bont yn sgwrsio gyda'r diweddar Hugh T. Hughes ym Methel, Tal-y-bont am 7.30 Mynediad: £2 Elw at Apêl De Affrica.

**CHWEFROR 28** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Marine Tocyn £20 yn cynnwys pryd bwyd tri chwrs, adloniant gan Gôr Ger-y-lli, Telynores Mynach a disgo Cymraeg i ddilyn. Tocynnau ar gael o Dots, Aberystwth neu trwy ffonio Sian Eleri ar 07811 269 929 Elw'r noson tuag at Bwyllgor Apêl Aberystwyth a Phenparcau Eisteddfod yr Urdd 2010.

**CHWEFROR 28** Nos Sadwrn Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Bobi a Sami … a dynion eraill; cyflwyniad newydd o ddrama Wil Sam Jones gan Aled Jones Williams yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAWRTH 3** Pnawn Mawrth Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo a chreadigol) yr Urdd cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau am 4.00.

**MAWRTH 4** Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Comins-coch am 1.30

**MAWRTH 5** Nos Iau Pennill, telyn a thant yng nghwmni Aled Lloyd Davies yn Drwm LLGC am 7.30 Mynediad am ddim drwy docyn ☎ 632548

**MAWRTH 5** Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg o 9.15 ymlaen

**MAWRTH 5** Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

**MAWRTH 6** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais am 4.00

**MAWRTH 6** Nos Wener Cwis yn Neuadd Rhydypennau am 7.30

**MAWRTH 7** Nos Sadwrn Cawl a Chân yng Nghlwb Golff Capel Bangor am 7.30 Tocynnau Mynediad £10 oddi wrth Aelodau o'r Pwyllgor neu Llinos Jones (Ffôn: 880238) Elw at Apêl Etholaeth Melindwr, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010

**MAWRTH 9** Dydd Iau Diwrnod y llyfr

**MAWRTH 11** Nos Fercher Noson i ddathlu Gŵyl Ddewi gydag aelodai o Gor ABC yn Ysgol Trefeurig am 7.30 Elw tuag at Gronfa Trefeurig Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2010

**MAWRTH 11** Nos Fercher Cwmni Troed-y-Rhiw yn cyflwyno dwli newydd o'r enw Priodas Cwmffradach yn Neuadd Rhydypennau am 8.00. Dim conffeti os gwelwch yn dda.

**MAWRTH 14** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Richmond, Aberystwyth. Enwau i'r ysgrifennydd – Ceris Gruffudd cyn nos Lun Mawrth 9.

**MAWRTH 18** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010. Croeso Cynnes i Bawb

**MAWRTH 18** Pnawn Mercher Eisteddfod Ddawns (gwerin, disgo a chreadigol) yr Urdd rhanbarth Ceredigion - cynradd ac uwchradd yng Nghanolfan y Celfyddyau - am 13.00.

**MAWRTH 18** Nos Fercher Eisteddfod Aelwydydd yr Urdd rhanbarth Ceredigion yng Nghanolfan y Celfyddydau - am 6.15

**MAWRTH 19** Nos Iau Noson i'w threfnu Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30

**MAWRTH 20** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi o 9.30 ymlaen

**MAWRTH 20** Nos Wener Ymweliad â'r 'Drwm' - Hen Ffilmiau Cymreig Cymdeithas Lenyddol y Garn

**MAWRTH 21** Bore Sadwrn Bore coffi yn y Garn i dderbyn rhoddion ariannol at Cymorth i Bosnia rhwng 10 a 12

**MAWRTH 21** Bore Sadwrn – Cinio'r Grawys yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre dan nawdd Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn rhwng 12.30-1.30. Elw at Ffagl Gobaith.

**MAWRTH 23** Nos Lun Cyfarfod cymorthfa PACT wedi ei drefnu gan Heddlu Dyfed-Powys yn festri Horeb am 7.30

**MAWRTH 28** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAI 2** Dydd Sadwrn Gŵyl Bedwen Lyfrau yng Nghanolfan Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth am 2.00

## CYFEILLION Y TINCER

Oherwydd llwyddiant ysgubol yr ymdrech i gynyddu rhifau/unedau Cyfeillion Y Tincer mae'n bleser cael cyhoeddi cynnydd hefyd yn ein gwobrau misol. Dyma'r gwobrau o hyn allan.

Gwobr 1af £25
2il wobr £15
3ydd wobr £10

Bydd hefyd dwy wobr Nadolig arbennig o £60 a £40 ym Mis Rhagfyr.

Enillwyr cyntaf y gwobrau hyn am fis Ionawr 2009 yw:
£25 (Rhif 129) Ann James, Pen Banc, Penrhyn-coch.
£15 (Rhif 245) Elwyn Ioan, 11 Ffordd Y Drindod, Aberystwyth.
£10 (Rhif 55) Brian Davies, Rhos, Taliesin, Machynlleth.

Tynnwyd y rhifau buddugol gan ein Golygydd yn swper Plygain Llandeilo Nos Sul y 25ain o Ionawr 2009.

Hoffem fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'r Trefnydd am ei waith ac i'r holl rai sydd wedi ymateb i'r cais i fod yn aelod neu i gael rhif ychwanegol. Mae'r Clwb Cyfellion yn codi incwm i gostau cynhyrchu'r Tincer. Os nad ydych eisoes yn aelod, a bod gyda chi ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch âr trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street. Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf

**Annwyl Olygydd**

A gâf dynnu sylw darllenwyr eich papur bro os gwelwch yn dda at ymgyrch Ffagl Gobaith i gasglu hen ffonau symudol a chartridges inc cyfrifiadurol gwag. Mae ein helusen yn medru cael arian gwerthfawr o anfon rhain at gwmni sy'n eu hail-gylchu. Mae hyn yn broffidiol i'r elusen wrth gwrs, ond hefyd yn dda i'r amgylchedd.

Os oes gan unrhywun gyfraniadau byddem yn falch i'w derbyn yn ein swyddfa yn Stryd y Popty, Aberyswtyth neu yn Manchester House, Aberteifi. Mae pob ceiniog a godir gan yr elusen yn aros yn y sir i helpu ein pobl ni sy'n dioddef o afiechydon terfynol neu afiechydon sy'n cwtogi hyd bywyd pobl.

Diolch am bob cefnogaeth.

Yn gywir iawn
Jan Jones, Gwirfoddolwraig
10 Stryd y Popty, Aberystwyth

## TREFEURIG

### Priodas

Ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 30, 2008, diwrnod braf a heulog, priodwyd David Belsey, mab hynaf Chris a Dwynwen Belsey, Tŷ Newydd, Cwmerfyn a Dr. Flor Angelica Gonzalez yn yr Iglesia Del Pacto El Dorado, Dinas Mexico.

Tywyswyd y priodfab gan ei fam a thywyswyd mam y briodferch, Mrs Rosa Maria Gonzalez, gan dad y priodfab o flaen y briodferch a'i brawd Ramon yn ôl traddodiad Mexico. Yn ystod y gwasanaeth darllenwyd dau ddarlleniad yng Nghymraeg gan ffrindiau'r priodfab.

Roedd y wledd briodas yn Restaurant Elago, Dinas Mexico a threuliodd David ac Angelica eu mis mêl yn Cancun. Y mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaeredin.




**Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James**

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed, am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn Mawrth 31ain 2009. Yr ysgrifennydd yw :
Sian Spink
1 Cefnmelindwr, Capel Bangor, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3LS
Ffôn : 01970 880467

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer.
Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn
Tudalen gyfan £70
Hanner tudalen £50
Chwarter tudalen £25
Hysbyseb fach £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn)
Cysylltwch â'r trysorydd.

## CYSYLLTWCH Â NI

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Gwenan a Dick Davies, Ger-y-llan £10
Mervyn a Sue Hughes £10

Mae ein Trysorydd, Aled Griffiths yn symud o'r ardal ac o'r herwydd mae'r Tincer yn chwilio am drysorydd arall. Os gwyddoch am rywun fyddai yn fodlon bod yn drysorydd cysylltwch â un o'r swyddogion, os gwelwch yn dda. Yn y cyfamser ni ddylai neb roi arian gwerthiant yb drwy ddrws Aled gan y bydd yn symud yn y dyddiau nesaf.

Diolch i Aled am eiwaith cydwybodol yn y cyfnod y bu'n drysorydd a dymuniadaugorau iddo yn ôl yn ei ardal enedigol, Login (ai am ei fod yn dod o le o'r enw yma mae o a gwefan http://www.metastwnsh.com/ sy'n sôn am dechnoleg a'r we?!!!!!!

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Mae-syrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Y BORTH

## Y Borth yn codi £3000

Llwyddwyd i godi £3000 ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. mewn dau ddigwyddiad yn Y Borth yn ystod mis Ionawr

Ar nos Wener Ionawr 23ain cynhaliwyd Cinio Santes Dwynwen hwyliog iawn yng Nghlwb Golff y Borth a'r Ynys-las. Nans Morgan, un o chwaraewyr gorau'r Clwb, oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson. Wedi cinio ardderchog cafwyd adloniant gyda Tecwyn Ifan ar ei orau yn canu amrywiaeth o'i ganeuon.

Roedd Neuadd y Borth yn llawn dop ar nos Sadwrn Ionawr 31 ar gyfer Pictiwrs Bach y Borth. Cafodd y noson hon ei threfnu gan Elin a John Hefin a bu nifer o'r trigolion lleol hefyd yn cynorthwyo er mwyn sicrhau llwyddiant ysgubol y noson. Dangoswyd y ffilm "Grand Slam" a gynhyrchwyd gan John ar gyfer BBC Cymru dros 30 mlynedd yn ôl. Mae'r ffilm heddiw yr un mor boblogaidd a doniol ag erioed. Fel bonws ychwanegol roedd dau o brif actorion y ffilm, Dewi Pws a Sion Probert yn bresennol yn y noson.

Dangoswyd ffilmiau byrion hefyd gan gynnwys ffilmiau archif a rhai mwy diweddar o'r Borth.

Bu'r ocsiwn dan ofal Dylan Raw-Rees yn hwb sylweddol i'r gronfa ac ymhlith y nwyddau a werthwyd roedd credits y ffilm Grand Slam o waith y cartwnydd Gren, llun o eiddo Ray Gravell a charthen gywrain.

Dywedodd Wynne Melville Jones, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Llandre, Dol-y-bont a'r Borth, bod y brwdfrydedd lleol ar gyfer Eisteddfod 2010 y tu hwnt i bob disgwyl. "Mae'n wych o beth ein bod yn buddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc", meddai.


Nans Morgan gyda Tecwyn Ifan

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Elizabeth Murphy, Lôn Wastad, a dderbyniodd ei MBE ym Mhlas Buckingham yn ddiweddar, mewn cydnabyddiaeth o'i gwaith gyda Ffagl Gobaith, Aberystwyth.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr David Williams, Heol Aberwennol, a gyflwynwyd â thystysgrif o aelodaeth anrhydeddus am oes gan Mr Robin Clews, Cadeirydd Cymdeithas Radio Amatur Aberystwyth a'r Ardal. Roedd Mr Williams yn gydsylfaenydd y Gymdeithas yn y 1980au, a'i gwasanaethodd fel Cadeirydd am 25 mlynedd.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Ardal

Mr Gwyn Evans oedd y Cadeirydd yng nghyfarfod y Gymdeithas Gymraeg yn Festri Capel y Gerlan, nos Fercher, 14 Ionawr. Noson arbennig o ddifyr a gafwyd yng nghwmni Linda Griffiths, a siaradodd yn rhwydd ac a ganodd yn felys, i gyfeilant ei gitâr, am "Fwynder Maldwyn" a'i phlentyndod llawen yn ei bro enedigol hardd. Magwyd Linda ar fferm (neu "ar ffarm" fel a ddywedir ym Maldwyn) ar y ffin â Lloegr. Dim ond deng milltir i ffwrdd roedd nid yn unig ffin ddaearyddol, ond ffin ieithyddol a diwylliannol, ac fe dyfodd Linda i fyny yn hollol gyfforddus yn y ddau ddiwylliant, heb deimlo umrhyw dyndra rhyngddynt. Er hynny, ochr Gymreig y ffin a luniodd ei hatgofion cynharach, pan drodd bywyd yr ardal o gwmpas y Capel, y cyrddau a'r cyngherddau, yr Eisteddfodau a hen draddodiad y Plygain, adeg y Nadolig. Un o'i chaneuon oedd y garol Blygain "Ar gyfer heddiw'r bore" ac un arall oedd yn hollol newydd, o'i chyfansoddiad ei hunan, yn cofio diwrnod gaeaf ym Maldwyn ac olion traed ei thad yn yr eira. Diolchwyd iddi'n gynnes gan Mr Gwyn Evans ac fe ddaeth noson ddymunol i ben a phawb yn ymlacio ac yn hel atgofion dros gwpanaid o de.

Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi y Gymdeithas yn Llety Parc, Aberystywyth, nos Wener, 27 Chwefror. Y siaradwr gwadd fydd y Prifardd Dic Jones.

## Llongyfarchiadau

Da oedd clywed am enedigaeth arall yn nheulu Tŷ Du, sef merch i Rhian a'i gŵr Gerald, ac wyres gyntaf i Billy a Sally Williams. Mae Carys fach yn dod a nifer wyrion Tŷ Du i bump, a bydd yn sicr o gael croeso mawr gan ei phedwar cefnder!

Llongyfarchiadau hefyd i Dat-cu ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

## Gwellhad

Pob dymuniad da i Peter Fleming, Oriel Tir a Môr, am wellhad wedi damwain wrth syrthio oddi ar ysgol a thorri asgwrn yn ei droed. Gobeithio na fydd yn rhy hir cyn y byddi heb yr hen blaster 'na.

## Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cyd-enwadol dwyieithog brynhawn Ddydd Gwener, 9ed o Ionawr yn Festri Capel y Gerlan, wedi ei baratoi gan y Parchedig Richard Lewis. Roedd yna naws cartrefol hyfryd gydag aelodau o'r gwahanol enwadau yn cymryd rhan. Gosodwyd y blodau gan Tegwen Pryse, a chyfeiliwyd gan Eurgain Rowlands.

Mwynhawyd sgwrs a 'phaned wedi'r oedfa heb orfod symud cam!

Pleser o'r mwyaf Nos Sul, 1af o Chwefror oedd derbyn Mr. a Mrs.Islwyn ac Eveline Jones, Wennol, ynghyd â'u merch, Delyth Hunt, yn gyflawn aelodau yn y Gerlan, gan eu Gweinidog, y Parchedig Wyn Morris. Maent wedi ymgartefu yn y Borth ers rhai blynyddoedd bellach, ond hyd yn hyn wedi cadw eu haelodaeth yn eu hen gynefin yng Nghapel Hendre. Croeso twymgalon atom.

## Eglwys Sant Mathew Bedydd

Bore dydd Sul, 18 Ionawr, yn ystod Gwasanaeth y Cymun Bendigaid, fe fedyddiwyd Samuel Thomas a Megan Wyn Trubshaw gan Y Parchg Ronald Williams. Mae Sam a Megan yn blant i Amanda Jones a Lee Trubshaw, Neuadd Wen, ac yn aelodau ffyddlon o Ysgol Sul Eglwys Sant Mathew.

## Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi yn Nhafarn Ceffyl y Môr, ddydd Sadwrn, 24 Ionawr. Trefnwyd yr achlysur gan y Parchg Ddr David Williams. O ganlyniad iddo, fe godwyd tua £340 er budd Y Lleng Brydeinig ac Ysgol Sul Eglwys Sant Mathew. Cyflwynwyd anrheg bach i Margaret Griffiths, Ceffyl y Môr, gan y Parchg Ddr David Williams mewn gwerthfawrogiad o'i chefnogaeth a'i chymorth.

## Clwb yr Henoed

Mwynhawyd te Blwyddyn

ytincer@googlemail.com

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

Newydd gan aelodau o Glwb Henoed Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, ddydd Iau, 15 Ionawr. Betty Horton oedd Cadeirydd y cyfarfod busnes byr a'i ragflaenodd. Roedd rhaid gohirio dyddiad y Cyfarfod Agored Blynyddol (29 Ionawr) tan yr 12fed o Chwefror, oherwydd gwaith ar faes parcio'r Neuadd.

### Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd Cinio Nadolig SYM Y Borth yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, ddydd Mercher, 7 Ionawr. Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd, Jo Jones, a gofynnwyd bendith gan Joyce Berryman. Jo Jones oedd y Cadeirydd yng nghyfarfod cyntaf 2009 yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 21 Ionawr.

Llongyfarchwyd Lorraine Moore ar ei pherfformiadau yn y sioeau Nadolig, sef "Peter Pan" a "Sinbad the Sailor", yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Derbyniwyd adroddiad gan Margaret Griffiths am y Cyfarfod Penderfyniadau yn Aberaeron ar y 10fed o Ionawr. Daeth y noson i ben gyda Gyrfa Chwilen.

### Y Lleng Brydeinig

Y Parchg Ddr David Williams oedd y Cadeirydd yng nghyfarfod y Lleng Brydeinig yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 28 Ionawr. Dechreuodd y noson gyda'r Anogiad, wedi'i adrodd gan Mr Aran Morris. Y gŵr gwadd oedd Mr Philip Bridgewood, Rhosfryn, a siaradodd am ei 21 mlynedd fel peiriannydd yn y Llu Awyr. Rhoddwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o Sgwadron 561 Cadetiaid Awyr Aberystwyth a Sgwadron Awyr Prifysgol Aberystwyth. Bydd mudiad y Cadetiaid Awyr yn dathlu ei ben blwydd yn 68 oed eleni, fel y bydd Sgwadron 561 Aberystwyth, a sefydlwyd yn yr un flwyddyn. Diolchwyd iddynt oll gan Mrs Jo Jones, Ysgrifennydd Cangen Y Borth Y Lleng Brydeinig.

Enillwyd Cwpan y Sir gan Gangen Y Borth yn ddiweddar, ar ôl iddi recriwtio mwy o aelodau nag unrhyw gangen arall yng Ngheredigion yn ystod y flwyddyn ddiweddar. Arddangosir y Cwpan mewn cyfarfodydd drwy gydol 2009. Ar derfyn y cyfarfod, adroddwyd y Beddargraff Kohima gan Mr Iori Lewis. Daeth y noson i ben a the a bisgedi.

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Cynhaliwyd cinio Nadolig a noson gwobrwyo Ieuenctid Borth ac Ynys-las ar yr 20fed o Ragfyr yn y Clwb, gyda dros 70 o'r Adran Iau yn bresennol.

Yn yr wythnosau cyn Nadolig bu aelodau'r adran sy'n chwarae ar y cwrs ymarfer yn cynnal cystadlaethau, a'r enillwyr oedd Daniel Hopton, Jessica Wall, Ffion Walther, Claire Gittins ac Anwen Morris.

Bu aelodau'r Adran sy'n chwarae ar y prif gwrs yn cystadlu unwaith eto am dwrciod trwy garedigrwydd hael ei noddwyr, sef Tafarn Ceffyl y Môr.

**Canlyniadau Nadolig**
Cystadleuaeth 1 — Medal
1af Luke Williams (Bow Street) 82:22:66
2il Jac Morris (Y Borth) 87:18:69
3ydd Steffan Thomas (Tal-y-bont) 129:45:74

**Cystadleuaeth 2 — Stableford**
1af Mathew Holmes (Y Borth) 39 pwynt
2il Stephen Bailey (Y Borth), 37 pwynt
3ydd Jac Morris (Y Borth) 35 pwynt

**Cystadleuaeth 3 — Bogey**
1af Jac Morris (Y Borth) Cydradd



2il Zach Galliford (Y Borth) —1
3ydd Angharad Basnett (Bont-goch) —2

**Cystadleuaeth 4 — Medal**
1af Zach Galliford (Y Borth) 73:4:69
2il Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 89:19:70
3ydd Andrew Gittins (Llanbadarn) 95:24:71


**Cystadleuaeth 5 — Stableford**
1af Angharad Basnett (Bont-goch) 37 pwynt
2il Luke Williams (Bow Street) 36 pwynt
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 34 pwynt

Prif wobrwyon y noson oedd Cwpan Chwaraewr Mwyaf Cyson y Flwyddyn, a noddwyd gan Steve South a Cwpan Coffa Pat Clare am Chwaraewr Iau y Flwyddyn. Eleni enillydd y ddau gwpan oedd y chwaraewr rhyngwladol Zach Galliford.

**Canlyniadau'r Golffiwr Mwyaf Cyson**

1af Zach Galliford 105 pwynt
2il Daniel Basnett 93 pwynt
3ydd Angharad Basnett 86 pwynt
4ydd Luke Williams 63 pwynt
5ed Ioan Lewis 58 pwynt
6ed Steffan Richards 57 pwynt
7fed Elis Lewis 52 pwynt
8fed Gareth Davies 38 pwynt
9fed Ben Jones-Hughes 31 pwynt
10fed Matthew Lucas 29 pwynt

Cafwyd hwb mawr i'r Clwb ar ddechrau'r flwyddyn newydd wrth iddynt dderbyn cydnabyddiaeth swyddogol o Bwyllgor Datblygu Golff Cymru ac Undeb Golff Cymru am lwyddo i annog pobl ifanc i chwarae'r gêm. Derbyniodd y Clwb Dystysgrif Golff Iau, yr unig Glwb yng nghanolbarth Cymru i dderbyn cydnabyddiaeth o'r fath am eu cefnogaeth i Golff Iau, a hynny trwy dderbyn yr "Higher Award", y dyfarniad uchaf posib.





# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty yr Hafod, Pontarfynach, ar nos Sadwrn stormus iawn. Croesawodd Nancy Evans pawb ynghyd ac ar ôl gorffen y pryd blasus iawn cawsom orig ddifyr iawn yng nghwmni Delyth Morris Jones. Daeth Delyth a llond basged o hen bethau o oes ei rhieni a chafwyd llawer o hwyl yn gwrando arni yn adrodd eu hanes, ac yn dyfalu beth oedd pwrpas llawer o'r creiriau yma. Noson ddifyr iawn.

'Roedd pawb wedi edrych ymlaen yn eiddgar i glywed Charles Arch ddechrau Chwefror ond bu yn rhaid gohirio y noson oherwydd y tywydd.

### Aelod addawol

Llongyfarchiadau i Angharad Spence-Wison, Fferm Aberffrwd, ar gael ei dewis yn aelod ieuengaf mwyaf addawol Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Nerys Daniel, Glynrheidol, ar ei dyweddïad â Nigel Thomas Llanbadarn.

# BOW STREET

## Suliau Mawrth

**Capel y Garn**
http://www.capelygarn.org/
10 a 5
1 Oedfa'r Ofalaeth 10
8 R. Ll. Jones
15 Bugail
22 Ifan Mason Davies
29 J.E. Wynne Davies

**Noddfa**
1 2.00 Gweinidog. Cymundeb
8 10.00 Parch. Terry Edwards
15 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn Soar am 10.00
22 10.00 Parch Ifan Mason Davies
29 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â'r Athro a Mrs Hywel Roberts, Llety Nedd, ar farwolaeth modryb i Hywel, chwaer i'w fam, yn Llangollen yn ddiweddar.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Mrs Mair Lewis a'r teulu, Brynawel, Bow Street, ar farwolaeth ei chyfnither, Shan, Lloyd Hughes, 32 Maes Gogerddan, Aberystwyth, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Guto Malgwyn, Hafod Deudraeth, Bryncastell ac Adriana Parra Paez, Bogota, Colombia, ar eu dyweddiad ar nos Galan. Cariad mawr a dymuniadau gorau oddi wrth Dad, Mam, Angharad, Steven a Lily-May.

## Gofalaeth y Garn

Wedi naw mlynedd o drefnu bore agored i dderbyn nwyddau a bwydydd sych ar gyfer ein hymgyrch flynyddol "Cymorth i Bosnia", penderfynwyd newid y drefn eleni.

Bore Sadwrn 21ain o Fawrth gwahoddir aelodau'r Ofalaeth a'r gymuned i Fore Coffi yn y Garn pryd y derbynir rhoddion ariannol yn hytrach na'r nwyddau arferol.

Cafwyd cefnogaeth frwd gan Eglwysi'r Ofalaeth yn y gorffennol a chyfraniadau hael gan eglwysi eraill y gymuned a'r ardalwyr.

Bydd Eric Harries yn gadael am Mostar, Bosnia ddechrau mis Mawrth ac mae'n wirioneddol ddiolchgar am eich cefnogaeth hael a chyson.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar Ionawr y 12fed. Croesawodd ein Llywydd Lisa Davies ni gan ddymuno blwyddyn newydd dda a hefyd gwellhad buan i rai o'r aelodau a oedd heb fod yn hwylus yn ddiweddar. Aed ymlaen i drafod y busnes arferol, yna fe groesawyd ein gwraig wadd Ingrid Evans, ar ran "Ffagl Gobaith", sefydliad sydd yn cael ei redeg i Geredigion yn unig. Syndod oedd i bawb yr holl waith a chymorth eang sydd ar gael efo'r sefydliad yma.

Diolchodd ein llywydd i Ingrid Evans am noson wirioneddol addysgiadol, ac am ateb holl gwestiynau'r aelodau. Dyma sefydliad sydd yn wir werth ei gefnogi.



Huw Meirion a Dafydd Pritchard a fu'n darllen eu gwaith yn 'Noson y Prifeirdd' yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn, nos Wener, 16 Ionawr 2009

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn 2009 ar ddydd Mercher 7fed Ionawr. Llywyddwyd a chymerwyd y defosiwn gan y Parchedig Judith Morris, a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Nest Davies sydd yn yr ysbyty yn dilyn damwain cyn y Nadolig, a hefyd i'r Gadeiryddes Mrs Gwenda Edwards sydd yn anhwylus.

Ein gŵr gwadd oedd Mr Bryn Lloyd. Dangosodd ffilm fideo a wnaed gan y diweddar Mr Hywel Evans, Penrhyn-coch ym 1983 ar achlysur dathlu adeiladu'r Capel gan mlynedd a hanner ynghynt ym 1833. Roedd y sylwebaeth ar y fideo gan Mr Bryn Lloyd a braf oedd gweld y plant yr adeg hynny yn cystadlu mewn gormest Chwaraeon Potes (It's a Knockout), cipolwg ar arddangosfa o ddogfennau a lluniau o hannes y capel a dwy gyfweliad gyda'r diweddar Mr Ieuan Morgan, Glanfred a'r Parchedig D R Pritchard. Cafwyd cyfle hefyd i weld lluniau ardderchog a dynnwyd gan y diweddar Mr William Pugh Evans, trwy ganiatad ei weddw Mrs Mair Evans, Penrhyn-coch, o'r pasiant a berfformwyd gan blant, ieuenctid ac athrawon yr Ysgol Sul.

Braf oedd cael dwyn i gof a hel atgofion am yr achlysur pwysig yn hanes y capel. Paratowyd te blasus ar ddiwedd y cyfarfod gan chwiorydd ardal y Dolau.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ag Alan Jones,



Euryl Rees (Penrhyn-coch), Rhydian Phillips (Cleve/Bow Street), Bethan Lewis (Penrhyn-coch) ac Aled Phillips. Daeth Euryl a Bethan draw i ymweld â'u ffrindiau Rhydian, Megan ac Aled yn Cleve, De Awstralia ar gyfer y Nadolig. Gwelir hwy yma yn ymweld a gwinllan yn Port Lincoln.



Bydd Aled Phillips yn cefnogi Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad ac am ddymuno'r gorau iddynt. Mae Aled yn byw yn Cleve, De Awstralia gyda'i rieni Rhydian Phillips a Megan DuBois. Mae Mam-gu Louisa, Tad-cu Alun, Yncl Sion a Hen Fam-gu a Hen Dad-cu Phillips i gyd yn byw yn Bow Street.

templatelliw.indd 6 17/2/09 11:04:18



Derlwyn, ar farwolaeth ei fodryb ym Mhenparcau yn ddiweddar.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mandy ac Iwan Morus, Isfryn, y Lôn Groes, ar enedigaeth mab bach — Gwilym Dafydd ar Chwefror y 9fed. Dymuniadau gorau.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mair Davies, Irlwyn, sydd newydd fod yn cael triniaeth yn yr ysbyty a hefyd i Gwenda Edwards, Tregerddan a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar .

### Pwyllgor Apêl Tirymynach Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010

Bu`r noson o Gawl a Chân a gynhaliwyd yn Neuadd Rhydypennau nos Wener 30 Ionawr dan nawdd Pwyllgor Apêl Tirymynach yn llwyddiant ysgubol ym mhob ystyr posibl y gair.. Fe fu paratoi mawr ar gyfer yr achlysur a braf oedd gweld cymaint yn cydweithio er mwyn cyflawni`r nod. Erbyn y noson yr oedd pob tocyn wedi ei werthu a Neuadd Rhydypennau wedi ei haddurno`n lliwgar yn lliwiau`r Urdd. Diolch i Mrs Kitty Evans, Tan y Foel, am drefnu`r blodau. Darparwyd y cawl i gyd gan Mrs Margaret Griffiths o Geffyl y Môr, y Borth ac yr oedd gweddill y bwyd wedi ei baratoi gan aelodau`r Pwyllgor Apêl. Yn y cyswllt hwn cydnabyddir yn ddiolchgar haelioni mawr Mrs Margaret Griffiths ac hefyd y nawdd ychwanegol at y bwyd a gafwyd gan Siop Spar Bow Street a`r Co-op ar y Waun. Yr oedd yr adloniant yng ngofal Aelwyd Bro Ddyfi ac fe gafwyd gan y criw gryn awr o adloniant gwerth chweil. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Eddie Jones, dau a gyflawnodd gymaint o waith da yn yr ardal yn enw`r Urdd ar hyd y blynyddoedd Cafwyd gair pwrpasol gan Mrs Jones yn ystod y noson ac yn ei sgwrs bu`n dwyn atgofion am gystadlu yn Eisteddfodau`r Urdd. Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd hael a roddodd Mr a Mrs Jones tuag at y noson.

Yn ystod y noson cyflwynwyd blodau i Mrs Bethan Jones gan Gwen ap John ac i Mrs Margaret Griffiths gan Glesni Morgan fel arwydd o werthfawrogiad y Pwyllgor Apêl o`u cyfraniad tuag at y noson. Cydnabyddir hefyd bresenoldeb Mrs Meinir Jones o Fanc Barclays yn y noson a haelioni Banc Barclays a`i gynllun punt am bunt.

Nos Wener
Mawrth 6ed

**NOSON CWIS**

yn Neuadd
Rhydypennau
am 7.30

Dewch i gefnogi

# CLARACH

### Jenni Matilda (Tilly) Davies

Trist yw cofnodi'r newyddion am farwolaeth Jennie Matilda (Tilly), Sŵn y Don ar Ragfyr 28, 2008. Cymeriad hoffus ac adnabyddus a hanesol iawn oedd Tilly. Treuliodd ei bywyd yn ei milltir sgwâr. Os oedd rhywun am hanes lleol neu wybodaeth teulu, gofynnwch i Tilly oedd yr ateb. Pleser mawr oedd bod yn ei chwmni, a'r cof arbennig oedd ganddi yn rhannu gan ffrindiau o bob ardal. Yr oedd diddordeb mawr gandi ym mhob cwis ar Radio Cymru a chafodd llawer sgwrs gan Jonsi ar y Radio. Bu ei llais lawer tro ar ei raglen, yn ddiweddar ychydig wythnosau cyn iddi fyned i'r ysbyty ym mis Gorffennaf i gael clun newydd. Sôn am ei bywyd a'i hanes pan yn ifanc oedd hi. Roedd Radio Ceredigion yn bwysig iawn iddi, a gofalai am recordiau i'w theulu a ffrindiau ar achlysuron arbennig fel pen blwydd neu briodas ac achlysuron pwysig. Yr oedd hefyd yn ffefryn mawr o Dai Jones, Llanilar ar Radio Cymru ar nos Sul a'r rhaglen Rasus ar y teledu. Yr oedd wedi cyrraedd yr oedran teg o 94 ac wedi bod yn ddewr iawn hyd oriau diwethaf ei hoes, ac wedi byw wrth ei hunan. Ond afiechyd aeth yn drech dydd Nadolig pan y'i cludwyd i Ysbyty Bron-glais a Threforus, lle collodd y frwydr.

Bu ei hangladd yn Llangorwen dydd Mawrth 6 Ionawr, yng ngofal y Parchg. J. Livingstone, Penrhyn-coch.



# GOGINAN

### Llongyfarchiadau

### Babis

Mi fu yn amser o ddathlu eleni adeg y Nadolig yn Oakdale gan i June a Colin Baxter ddod yn fam-gu a thad-cu dim unwaith ond dwywaith mewn amser byr. Ganwyd merch fach, Beth Mary, i Mathew a Tina Baxter yng Nghoventry ar Ragfyr 11, 2008 ac ar ól y Nadolig ar Ionawr 5 ganwyd Charlie Owen i Steve a Charlotte Baxter, Llangwyryfon. Pob dymuniad da i'r teuluodd.

### Dyweddio

Yn Araul roedd dathlu hefyd gan i unig ferch Brian a Liz Ashton ddyweddio adeg y Nadolig. Cyfarfu Jennifer â Nick Hadfield pan oeddynt yn y coleg saith mlynedd yn ól a maent wedi ymgarterfu yn Efrog erbyn hyn lle mae Jenni yn athrawes mewn Ysgol Gynradd a Nick yn gynghorwr arianol. Pob lwc i'r dyfodol.

### Prawf gyrru

Ym mis Ionawr fe basiodd Mark Evans, Gwarllan,ei brawf gyrru. Gwyliwch allan am y fan wen!

# DÔL-Y-BONT

### Genedigaeth

Croeso i Carys, merch fach i Rhian a Gerald Watkin, Fferm Henllys. Ganwyd Carys ddiwedd Tachwedd ac ymddiheurwn am beidio â chyhoeddi y newyddion yn y rhifyn diwethaf. Mae Carys hefyd yn wyres newydd i Mrs. Primrose Watkin, Pen-bont. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd fel teulu.

### Pen blwyddi

Bu dipyn o ben blwyddi arbennig yn yr ardal yn ystod mis Ionawr. Roedd Sian Elin, Bryndderwen a Rhys Gerallt, Leri ill dau yn dathlu'r deugain, tra roedd David Evans, Dôl Werdd, ychydig bach yn hÐn ac wedi cyrraedd oed yr addewid! Pen blwydd hapus i chi eich tri.

### Cydymdeimlad

Estynwn ein cydymdeimlad â John Hughes a Sian Elin, Bryndderwen, ar farwolaeth brawd ac ewythr, sef Mr. Hugh Hughes, Llandre.

CYSYLLTWCH Â NI

# MADOG

### Suliau Mawrth Madog

2.00
1 Oedfa'r ofalaeth 10 y Garn
8 R. Ll.Jones
15 Bugail
22 Ifan Mason Davies
29 J.E. Wynne Davies

### Cymdeithas Madog

Cafwyd dau gyfarfod hwyliog dros ben yn ddiweddar, y naill ar Ragfyr 11 yng nghwmni Azul de Pol, a'r llall ar Ionawr 15 yng nghwmni Erwyd Howells. Merch a fagwyd yn y Wladfa yw Azul, ond bellach mae hi'n fyfyrwraig ar ei blwyddyn gyntaf yn yr Adran Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Roedd rhai o'i theulu o dras Eidalaidd, ac er nad oedd dafn o waed Cymreig yn ei gwythiennau, aeth Azul ati i ddysgu Cymraeg yn y Wladfa a darganfod hunaniaeth newydd. Cyn bo hir roedd hi a'i mam, Sandra de Pol (a enillodd wobr Dysgwr y Flwyddyn yn y man) wedi ymartrefu yng Nghaerdydd, ac fe dreuliodd Azul bedair blynedd yn Ysgol Glantaf. Difyr iawn oedd clywed am ei magwraeth ac am ei phrofiadau ieithyddol. Ar ddiwedd y noson cawsom gyfle i flasu te Maté, diod iachus a weinir yn aml mewn llestr arbennig.

Yng nghyfarfod mis Ionawr, estynnwyd croeso i bymtheg o aelodau Cymdeithas Llanilar, ac i ffrindiau eraill o ochrau Tal-y-bont a Phonterwyd. Erwyd Howells, Tŷ'r Capel, oedd y gŵr gwadd, a'i destun oedd cymdeithas Nant-y-moch cyn boddi'r cwm yn 1961. Gyda chymorth hanner cant o luniau gwych, cyflwynwyd ffrwyth ymchwil fanwl Erwyd a pheth o'r dystiolaeth lafar gyfoethog a gasglwyd ganddo dros y blynyddoedd. Roedd yn braf cael cwmni'r Bugail, Y Parchedig Wyn Rhys Morris, yn y ddau gyfarfod a lywyddwyd gan y Bnr Alwyn Hughes, Gellinebwen; gweinwyd te a lluniaeth gan y chwiorydd. Cynhelir ein cyfarfod nesaf Nos Iau, 19 Chwefror (am 7.30) pan fydd Miss Hawys Tomos, Prifysgol Aberystwyth, yn sôn am ei thaith i Botswana — gwlad sydd wedi dod yn gyfarwydd inni drwy nofelau Alexander McCall Smith. Croeso cynnes i bawb o fro'r *Tincer* (a'r tu hwnt) i ymuno â ni.

### Croeso gartref


Croeso adref i Alwen Griffiths, Lluest Fach. Gobeithio ei bod yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â John Morgan, Plas y Bryniau, ar golli chwaer, a oedd yn byw yn Norwy;

â theuluoedd y Fronfraith a Fronddewi ar golli perthynas — Mr George Pugh, Comins-coch.








GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger 1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.

ytincer@googlemail.com

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

# PENRHYN-COCH





## Suliau Mawrth Horeb

**http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**

1 10.30 Clwb Sul
2.30 Gweinidog Oedfa gymun
8 10.30 Gweinidog Oedfa deuluaidd
15 10.30 Clwb Sul
2.30 Gweinidog
22 10.30 Clwb Sul Bach ac oedfa Gweinidog
29 10.30 Clwb Sul ac oedfa Gweindog

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dafydd a Rhiannon Ifans, Gwyddno, Seiriol ac Einion, ar farwolaeth mam Dafydd, - Jenny Evans, Cwm Peilliad, Llanbadarn Fawr, ar 21 Ionawr. Bu Dafydd a'i rieni. Jenny a Tom Evans, yn byw yn y Glyn rhwng Capel Dewi a Capel Madog yn nechrau'r pumdegau.

## Diolchiadau

Dymuuna Gwenan a'r teulu, 48 Ger-y-llan, ddiolch o waelod calon i berthnasau, ffrindiau, cymdogion, a chydweithwyr am bob cydymdeimlad, caredigrwydd a chefnogaeth yn ei phrofedigaeth o golli brawd mor annwyl ac arbennig iawn. Diolch hefyd i'r Parchedig Judith Morris am ei chefnogaeth a'i rhan yn y gwasanaeth.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Delyth ac Owain Llwyd, Caerdydd ar enedigaeth merch, - Sara Llwyd, - dydd Mawrth 27ain Ionawr yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Wyres arall i Val a Dafydd Thomas, Bysaleg.

## Eglwys Sant Ioan Llongyfarchiadau

Dymuna plwyfolion Eglwysi Penrhyn-coch, Elerch a Capel Bangor longyfarch ein Ficer y Parchedig John Livingstone ar ennill Diploma mewn Diwinyddiaeth o Brifysgol Llambed.

## Marwolaeth

Cydymdeimlwn a Elizabeth Lloyd a'r teulu, 90 Ger y Llan, Penrhyn-coch ar farwolaeth ei gŵr John Edward Lloyd a fu farw ar 14eg Ionawr. Gweinyddwyd y gwasanaeth yn yr eglwys gan y Parch. J. Livingstone.

## Diolch

Dymuna teulu'r ddiweddar Jennie Matilda (Tilly) Davies, Sŵn y Don, Clarach, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad iddynt, mewn galwadau ffôn, cardiau, llythyron a rhoddion tuag at MENCAP. Hefyd diolch i'r Parchg J Livingstone am ei wasanaeth dydd ei hangladd. Diolch yn fawr.

## Gŵyl Mair y Canhwyllau

Nôs Lun 2il Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth o'r cymun bendigaid i ddathlu cyflwyniad Crist yn y deml, dyma derfyn tymor y Nadolig yng nghalendr yr eglwys, enw arall ar y diwrnod yw Gŵyl Mair y canhwyllau, ble arferir bendithio'r holl ganhwyllau a ddefnyddiwyd yn yr Eglwys yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Eglwys yn awr yn edrych ymlaen tuag at gyfnod y Grawys a'r Pasg. Bydd gwasanaeth o'r cymun bendigaid yn yr Eglwys bob bore Mercher yn ystod y Grawys gan ddechrau ar ddydd Mercher Lludw Chwefror 25ain a bob nôs Fawrth bydd Grŵp y Grawys yn cyfarfod am 7 o'r gloch ac yn dechrau ar Fawrth 3ydd.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Bu'r gwragedd yn dathlu eu cinio blynyddol yng 'Ngheffyl y Môr' y Borth ar Ionawr 12fed ble cafwyd pryd ardderchog fel arfer wedi ei baratoi gan Margaret Griffiths. Diolchwyd iddi am y wledd a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan ein llywydd, Edwina Davies. Bu Dwynwen Belsey, un o'r aelodau, yn rhoi hanes ei hymweliad â Mexico, ble bu hi a'i gŵr a ffrindiau eraill yn dathlu priodas ei mab hynaf David ar ôl y Nadolig, ac 'roedd dathlu'r flwyddyn newydd ym Mexico yn brofiad arbennig yn ôl Dwynwen. Noson bleserus iawn.

## Merched y Wawr

Yn absenoldeb ein Llywydd Mairwen Jones, a oedd yn sal, croesawyd ein aelodau i'r cinio yn Boulders, yn y Borth ar Nos Iau, 8 Ionawr gan ein Is-Lywydd Ceri Williams. Llongyfarchwyd Sue Hughes ar ddod yn fam-gu y diwrnod cynt, mab bach i Karen a Mathew. Roedd yn noson oer iawn ond, er hynny, roedd y cinio yn fendigedig a sgwrs ein gwraig gwadd, Linda Griffiths, yn hynod o ddiddorol. Cafwyd adloniant hefyd gan Ceri Williams pan aeth ei napcyn ar dân gan gannwyll! Edrychwn ymlaen yn awr i sgwrs Rocet Arwel Jones ar 12 Chwefror.

## Cronfa Plwyf Trefeurig Eisteddfod yr Urdd 2010

Hoffai'r Pwyllgor annog y rhai nad ydynt eto wedi cyfrannu i'r gronfa hon yrru eu cyfraniad i Delyth Jones, 1 Glan Ceulan neu Anne Morris, Preseli.

## Diolch

Hoffai Taid a Nain (Mervyn a Sue) a Mam a Dad (Karen a Mathew) ddiolch o galon am yr anrhegion, cardiau a chyfarchion ar enedigaeth Owen Jac. Diolch o galon.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu a chysylltiadau'r diweddar Jack Jones (Postman), Tregaron. Un o blant y Penrhyn oedd Jack, sef un o deulu Glanstewi, gynt.
Hefyd â Mrs Gladys Roberts a'r teulu, Minafon a gollodd ei chwaer-yng-nghyfraith, sef Margaret Fredericks. Cofiwn Margaret yn byw yn y Penrhyn; 'Roedd yn chwaer i'r diweddar Fred y Cwrt, fel yr adnabyddid gŵr Gladys a daethant i'r Penrhyn fel efaciwis.
Hefyd cydymdeimlwn â Clifford, Aubrey, Ronnie, Howard a Colin Evans a'u teuluoedd ar golli ei brawd-yng-nghyfraith, Jim, gŵr eu chwaer Moira.

## Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar, a'r canlynol a fu yn yr ysbyty — Eluned Morgan, Glanceulan; Doli Davies, 2 Bryntirion; Connie Evans, Gwawrfryn; Mr Rowlands, Bryntirion a Meirion Jones, Glanceulan.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Cawsom hwyl yn y Cyngerdd Nadolig a phawb yn gwneud eu rhan yn dda. Erbyn hyn yr ydym wedi ymgartrefu yn Ysgol Penrhyn-coch dros dro, diolch i garedigrwydd Mr Evans a'r staff.

Dyma lun ohonom yn dathlu Blwyddyn yr Ychen ac wedi bod yn brysur yn gwneud llusern Chineaidd a blasu'r bwyd.

Croeso cynnes i Osian sydd wedi ymuno â ni y tymor yma.

## Holiadur y Neuadd

Mae'r Holiadur ar gael nawr ar wefan Trefeurig. **http://www.trefeurig.org/** a wedyn **http://www.trefeurig.org/neuaddholiadur.php.** Gellwch pawb lawrlwytho copi, llenwi'r ffurflen a wedyn dychwelyd i'r bocsys.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rory ac Emma Robinson, 3 Maesyrefail, ar enedigaeth merch fach, Molly, chwaer fach i Connor

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Eluned Morgan, 23 Glanceulan ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Bron-glais.

## Neuadd

Mae Pwyllgor y Neuadd yn gobeithio y bydd y gwaith o adnewyddu y Neuadd, yn dilyn y llifogydd, yn dechrau unrhwy ddiwrnod.

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Mrs Annie Agnes Goodson, Manteg, Pen-llwyn

Bu farw Mrs Agnes Goodson ar 26ain o Ragfyr, yn ysbyty Tregaron yn 88 mlwydd oed. Nid oedd ei hiechyd wedi bod yn rhy dda wedi dioddef strôc ym 1998, ond syrthio yn y tŷ a wnaeth yn ddiweddar a thorri ei hysgwydd a'i glin. Gorfu iddi dreulio rhai wythnosau yn ysbyty Bron-glais cyn symud i Dregaron.

'Roedd Agnes yn un o bedwar o blant a anwyd i James a Catherine Tracey, Tangeulan. Aeth i ysgol Pen-llwyn ac Ardwyn ac yna i wasanaethu yn Llundain.

Daeth yn ôl i fyw i'r "Ffactri" ym mhen blynyddoedd, yn ferch hardd gyda ei gwallt browngoch. Bu iddi gyfarfod â Bill ( William Edgar ) yn Woolworth Aberystwyth, ac yntau ar y pryd yn y fyddin yng ngorsaf Tonfannau. Yn ddiweddarach priododd â Bill, a buont yn byw yn hapus mewn bwthyn bychan drws nesaf i Dolberllan, Blaengeuffordd; ond bellach nid yw y bwthyn bach hyn mewn bod.

Ganwyd tri o blant i Mrs Goodson yma, Kenneth, Dennis a Jean, a'r pedwerydd Michael wedi iddynt symud i Manteg, Stâd Pen-llwyn. 'Roedd yn wraig hapus ei byd, yn mwynhau bod gartref yn yr ardd, ac wrth ei bodd yn sgwrsio â thrigolion ieuainc y Stâd. Collodd ei phriod ym 1991.

Er nad oedd ansawdd ei bywyd yn dda y blynyddoedd diwethaf, hoffai yn fawr i fod yng nghwmni ei hŵyrion a daethant a llawenydd mawr iddi bob amser.

Mrs Agnes Goodson oedd un o drigolion hynaf Stâd Pen-llwyn. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Dewi Sant ar y 3ydd o Ionawr, yng ngofal y Parchg John Livingstone. Boed iddi orffwys mewn hedd, ac estynnwn eto gydymdeimlad â'r plant au teuluoedd a phob cysylltiad arall yn ogystal.

## Mrs Lillian Jean Tomkinson

Bu farw Mrs Jean Tomkinson, New Zealand House, Maes Carafánau, Maesbangor, ar y 21ain o Ragfyr 2008, yn 83 mlwydd oed. Oherwydd anhwylder, treuliodd y flwyddyn ddiwethaf yng Nghartref Nyrsio, Abermâd, lle derbyniodd bob gofal tyner a charedig. Gwerthfawrogwyd y gofal hwn yn fawr iawn.

Ganwyd Mrs Tomkinson yn ardal Newport Shropshire, ym mis Ionawr 1925, yr hynaf o chwech o blant y diweddar Arthur a Lillian Smith. Ar ôl gadael yr ysgol Ramadeg ym 1941, a'r Ail Ryfel Byd yn ei anterth, bu raid iddi weithio gyda ymdrechion y fyddin, ac hefyd fel Warden Tân.

Ar ddiwedd y rhyfel dychwelodd i ail ymafael â'i haddysg, a dilynodd gwrs dysgu mewn Coleg Hyfforddi, ac wedi graddio aeth ymlaen fel athrawes.

Yn 1950 priododd a Harold Tomkinson, a ganwyd iddynt bump o blant sef Susan, Mark, John, James a Ross.

Symudodd y teulu o Loegr, a dod i fyw i'r Borth ym 1966, lle bu Jean a Harold yn rhedeg gwesty i ymwelwyr. Ym 1974 symudasant i Capel Bangor i redeg y maes carafánau Maesbangor. Bu Harold ei phriod farw yn sydyn ym mis Hydref 1998, ond parhaodd Jean gyda'r fusnes carafánau, mewn partneriaeth â Ross ei mab ieuangaf.

Roedd Mrs Tomkinson yn berson amryddawn, yn hoff o nyddu a gwehyddu, ac hefyd yn fedrus iawn mewn llunio a phaentio.

Roedd yn aelod o Sefydliad y Merched, Cangen Pen-llwyn, ac am gyfnod yn aelod o bwyllgor gweithiol neuadd y pentref. Roedd hefyd yn aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Mathew, Goginan, a chanddi swydd Warden y Bobol, hyd at gau yr eglwys honno ym mis Mehefin, 1998.

Bu ei hangladd Ddydd Gwener, yr ail o Ionawr 2009, yn eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, yng ngofal ei Ficer, y Parchedig John Livingstone. Darllenwyd teyrnged haeddiannol iddi, a baratowyd, gan ei mab James. Mrs Eirwen Hughes, oedd yr organyddes. Rhoddwyd blodau gan y teulu agosaf, a derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru, er cof annwyl am Jean.

Cydymdeimlwn yn fawr â Ross a Meryl, y plant eraill a'u teuluoedd, a phawb arall yn ogystal a oedd ag unryw gysylltiad.

## I Rwanda ac Ethiopia

Fe gofiwch fod Carys Hughes, Brynawelon, wedi ei rhyddhau o'i swydd fel cyfrifydd yng Nghaerdydd am chwe mis, i fynd i Rwanda i weithio gyda'r elusen Achub y Plant. Teithiodd i'r wlad ym mis Tachwedd 08, a dyma hi wedi anfon tipyn bach o'i hanes i ni y mis hwn. Yr ydym yn ddiolchgar iddi am y canlynol, ac yn dymuno iddi bob hwyl a diogelwch yn ei gwaith, am weddill ei hamser yn Rwanda.

Aeth tri mis heibio, ers imi ddod i Rwanda, a bellach rwyf wedi cartrefu yn y brifddinas Kigali. Rwyf yn gweithio gyda thîm Cyllid lleol Achub y Plant, dod yn gyfarwydd â'u systemau a'u trefn o weithio, ac yn cynnig cyngor sut i wneud newidiadau i fod yn fwy effeithiol.

Dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, mi gefais gyfle i ymweld â Ethiopia gyda ffrindiau. O'r brifddinas Adis Ababa, aethom ar siwrnau ddeuddeg awr mewn bws tua'r dwyrain, i ymweld â Harar — dinas Islamaidd, yn llawn temlau, mosgs a llwybrau cul.

Mae Harar yn enwog am y traddodiad o fwydo udfilod (hyenas ) Bob nôs ar ol machlud haul, bydd yr udfilod yn dod i borth y ddinas, i gael eu bwydo o ddwylo'r "hyena man". Cefais siawns i fwydo un gyda darn o gig ar ffon — profiad brawychus o fod mor agos at anifeiliaid mor wyllt!

Treuliwyd diwrnod Nadolig yn Lalibela sy'n enwog am unarddeg o eglwysi, bob un yn gerfiedig o ddarn unigol o garreg. Fe'u hadeiladwyd gan yr Ymerawdwr o Ethiopia — y brenin Lalibela yn y ddeuddegfed ganrif. Ei fwriad oedd creu Jeriwsalem newydd yn Ethiopia, fel na fyddai rhaid i'w bobl fynd ar bererindod i'r Dwyrain Canol, ble y byddai cymaint ohonynt yn colli eu bywydau.

Roedd bod yn Ethiopia ar ddiwrnod Nadolig,yn brofiad rhyfedd. Nid yw y wlad hon yn dilyn ein calendr ni, yn hytrach yn dilyn yr hen galendr uniongred. Felly y flwyddyn oedd 2001 gyda'r Nadolig yn disgyn ar Ionawr 7ed. Roedd y flwyddyn newydd hefyd yn ddistaw — bydd y flwyddyn newydd yn Ethiopia yn disgyn ar Medi 17eg.

Ar ôl dychwelyd i Rwanda bum yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol yn y gogledd, ar y ffin gyda Uganda, sy'n gartref i'r gorila mynyddig. Dyma ble bu yr Americanwraig Diane Fossey yn astudio'r gorila mynyddig, a ble y cafodd ei llofruddio ym 1985. Ei hanes hi oedd sail y ffilm — Gorillas in the Mist. Mae saith gwahanol grŵp o'r gorilas yn rhan Rwanda o'r parc. Roeddwn yn un o wyth yn ymweld â'r grŵp Amahoro — y grŵp heddychol!

Roedd rhaid cerdded trwy jyngl trwchus am dros awr, cyn cael hyd iddynt ar ochr y mynydd. Buom wedyn am awr yn eu plith, yn ddigon agos i'w cyffwrdd. Roedd yn brofiad unigryw iawn.

Wedi cyrraedd yn ôl i Kigali, bum yn ymweld â'r gofgolofn sydd yn ein hatgoffa o'r digwyddiadau difrifol a gymerodd le yma 14 o flynyddoedd yn ôl. Wrth ddarllen am y misoedd arswydus rheini, mae yn anodd iawn coelio fy mod yn yr un wlad.

**Carys Hughes**



## Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Mrs Gillian Evans, gynt o Glasfryn Pen-llwyn, a fydd yn cychwyn fel Pennaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa, y Borth, ar ôl y Pasg.

Mae Gillian ar hyn o bryd yn Brifathrawes Ysgol Pen-y-bryn Tywyn, wedi gweithio yma fel Dirprwy am 7 mlynedd, ac 8 mlynedd fel Pennaeth. Anodd yw credu fel mae'r blynyddoedd wedi hedfan ers pan oedd Gill yn ddisgybl yn Ysgol Pen-llwyn, ac yn mynychu yr Ysgol Sul yn reolaidd.

Mae hi a'i phriod Daryl a'u mab Ioan yn byw ar hyn o bryd yn Llanbryn-mair, ond yn gobeithio symud i ardal Aberystwyth yn fuan. Rydym yn falch o'i llwyddiant, ac yn dymuno pob hapusrwydd a dymuniadau gorau i'r teulu bach.




## O'r Cynulliad – Elin Jones AC

Wrth i'r Cynulliad ailymgynnull yn ystod mis Ionawr, daeth y cyhoeddiad y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu bron i £1.1 miliwn i ariannu gwaith Cymunedau'n Gyntaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Ceredigion.

Mae hyn yn golygu y bydd y cynllun yn parhau i weithredu yn ardal Penparcau a Gorllewin Aberystwyth, ynghyd ag ym mhentrefi Ucheldiroedd Tregaron, dros y tair blynedd nesaf. Bwriad cynllun Cymunedau'n Gyntaf yw dod â thrigolion lleol at ei gilydd i geisio ymdrin â phroblemau lleol, ac rwy'n gobeithio y bydd y sicrwydd ariannol newydd hwn yn galluogi'r cymunedau yma i ddechrau cynllunio eu gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf.

Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn casglu manylion tai a busnesau Ceredigion sy'n parhau i fethu â derbyn cyswllt â'r rhyngrwyd fand-eang er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar ffyrdd i wella'r sefyllfa. Yn sgil hyn, fe ddaeth cadarnhad oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, cyn y Nadolig bod pentref Cilcennin yn un o chwe ardal yng Nghymru ble fydd BT yn gwella'r isadeiledd telegyfathrebu lleol er mwyn galluogi'r ardal i gael cyswllt rhyngrwyd cyflym. Mae hyn yn sicr yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ac rwy'n gobeithio y bydd modd edrych ar ffyrdd i ddelio â'r un broblem mewn ardaloedd eraill o Geredigion dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar draws Ceredigion yn ystod y mis diwethaf, gan gynnwys bore coffi llwyddiannus y Maer yn Aberystwyth. Roeddwn hefyd yn falch i allu mynychu dangosiad arbennig yn y Senedd o ffilm am Fynyddoedd y Cambria a chael cyfle i gwrdd â thrigolion o'r ardal.



Elin Jones AC

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 20 Ionawr, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Cyng. Richard Owen, yn y gadair. Roedd pob un o'r cynghorwyr eraill yn bresennol, ar wahân i'r Cyng. Kari Walker, a oedd yn cynrychioli'r Cyngor ym Mhwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru. Cafwyd ymddiheurad gan y Cynghorydd Sir.

Croesawyd Ms Gweneira Raw-Rees, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn Ceredigion, i'r cyfarfod. Eglurodd beth oedd Age Concern a'r Cyngor Sir yn ei wneud o ran sicrhau fod llais pobl hŷn yn cael ei glywed yn y Cyngor Sir, a'r angen i godi ymwybyddiaeth o anghenion henoed yn y sir, yn enwedig gan fod y ganran o bobl hŷn yn y boblogaeth yn mynd i gynyddu'n gyson dros y blynyddoedd nesaf. Cafwyd sesiwn fer o holi ac ateb ac yna diolchwyd i'r siaradwraig am ddod i gyfarfod y Cyngor.

Roedd y Cyngor wedi holi Cyngor Ceredigion am finiau graean i'w dodi mewn gwahanol fannau ar ochr y ffyrdd nad oeddynt yn cael eu graeanu gan y Cyngor Sir. Roedd y cais wedi'i wrthod ar hyn o bryd ar y sail nad oedd y mannau a nodwyd yn bodloni'r meini prawf pwrpasol ar gyfer biniau o'r fath. Synnwyd y Cyngor o glywed hyn a phenderfynwyd holi drachefn.

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan Kari Walker ar gyfarfod o Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig yr oedd wedi'i fynychu ar 9 Ionawr. Roedd Mr Geoff Jones o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi rhoi cyngor gwerthfawr ar ba fenthyciadau oedd yn bosib ar gyfer ariannu'r prosiect o ddatblygu'r Hen Ysgol fel canolfan gymunedol. Roedd Kari Walker hefyd wedi anfon adroddiad am gyfarfod cyntaf Grŵp Cysylltu Cymunedol Datblygiad Fferm Wynt Nant-y-moch, a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2008. Roedd cais am i'r Cyngor ystyried y fersiynau newydd o'r Cynllun Ymgynghori Cymunedol a'r Amodau Gorchwyl, a oedd wedi cael eu diwygio yn dilyn cyfarfod cyntaf y Grŵp. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn astudio'r dogfennau ac y gallent awdurdodi Cyng. Walker i arwyddo ar ran y Cyngor pe byddent yn fodlon â'r cynnwys.

Trafodwyd y bwriad i oleuadau stryd gael eu diffodd rhwng hanner nos a phump y bore o Ebrill ymlaen. Ers y cyfarfod cynt cafwyd cadarnhad mai £14 y flwyddyn fyddai'r gost ar hyn o bryd ar gyfer cadw un lamp ynghynn. Ar ôl cryn drafodaeth, cynigiwyd y dylai pum lamp yng nghanol y Penrhyn gael eu cadw'n olau, ond barn y mwyafrif oedd y byddai'n decach peidio ag eithrio unrhyw ran o'r gymuned, felly trechwyd y cynnig.

Daethai llythyr oddi wrth Penri James, Llandre, yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w ymgyrch i sefydlu Coleg Milfeddygaeth yn Aberystwyth, gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi milfeddygon yng Nghymru ar hyn o bryd. Penderfynodd y Cyngor y dylid ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r cynnig.

Trafodwyd sefyllfa ariannol 2008/09 a'r gyllideb angenrheidiol ar gyfer 2009/10. Roedd derbynion 08/09 yn £15,000, gyda £4,000 wedi'i gario drosodd o 07/08. Amcenid y byddai yn agos at £2,000 yn weddill ddiwedd Mawrth 2009. O ystyried y sefyllfa economaidd yn gyffredinol, penderfynwyd y dylid cadw gwariant y Cyngor yn 09/10 ar lefel debyg i un y flwyddyn bresennol. Felly penderfynwyd gosod cyllideb o £14,000 ar gyfer 09/10, a golygai hynny y byddai'n rhaid i'r archebiant ('praesept') fod yn £12,000. Cytunwyd ar hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 17 Chwefror.

ytincer@googlemail.com

# LLANDRE

## Pen blwydd Hapus

Ym mis Ionawr eleni, roedd Bill Thomas (Troed y Bryn gynt) yn dathlu ei ben blwydd yn 94. Cyflwynwyd iddo rodd oddi wrth aelodau'r Eglwys i gydnabod â diolchiadau diffuant ei bum mlynedd ar hugain o wasanaeth fel organydd yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn, Llandre.

Cyflwynwyd iddo lun hyfryd o Eglwys Llandre wedi ei baentio gan Mr John Atkinson a hefyd gryno ddisgiau o gerddoriaeth organ. Gwelir Bill a Buddug Thomas yn y llun gyda Mrs Betty Williams a Mrs Hazel Pitt a oedd yn cynrychioli'r Eglwys.

Hoffai Bill a Buddug ddiolch yn gynnes am yr holl ddymuniadau da a charedigrwydd â ddangoswyd iddynt gan gymdogion a ffrindiau wrth iddynt symud o Landre a chartrefu yn Bow Street.

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5i3u p.m. nosweithiau
iau a Gwener am brydiau teuluol

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
• Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720



## Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Mae Eglwys Llandre yn eich gwahodd i ginio'r Grawys, (pastai bugail a dewis llysieuol) ar ddydd Sadwrn 21 Mawrth o 12.30 - 1.30 yn Ysgoldy Bethlehem. Croeso cynnes i bawb. Yr elw at Ffagl Gobaith.

## Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i Rodney Barret, Gwenlli, sydd wedi dychwelyd adre ar ôl treulio cyfnod hir yn Ysbyty Abertawe.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Wynne a Linda Melville Jones, Y Berllan, ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Ganwyd mab, Ianto Jac, i Manon a Gwion ar Chwefror y 6ed. Ffrind bach newydd i Mr Urdd!

## Marwolaeth

Trist yw cofnod marwolaeth Hughie Hughes, Bugeildy a fu farw ar Chwefror 5 yn Ysbyty Bron-glais. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

## Damwain

Dymuniadau gorau i Morton Davies, Garth y Glyn, ar ôl derbyn damwain dros y Nadolig.

## Cyngor Cymuned Genau'r-glyn

Mae yna sedd wag ar Gyngor Cymuned Genau'r-glyn. Os oes gennych ddiddordeb a fyddech gystal â chysylltu gyda Delor Harvey ar 01970 820418

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Jane Raw-Rees, Ty'n Parc, ar golli ei modryb, Mrs Ceinwen Fox, Waunfawr, Aberystwyth yn ddiweddar

## J Henry James Brynllys, Llandre

Ar brynhawn gaeafol o fis Ionawr, daeth tyrfa fawr o gyfeillion a chydnabod Henry i dalu'r gymwynas olaf iddo yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn ac i gefnogi ei deulu galarus. Mewn llawer ystyr roedd Henry yn ddyn y gymdeithas ac wedi cyffwrdd â bywydau nifer mawr ohonom mewn gwlad a thref.

Ganwyd John Henry James ym Mherthygwenyn, fferm uwchlaw pentref Llan-non lle bu ei deulu ers cenedlaethau yn ffermio a magu ceffylau o fridiau enwog. Bu rhaid i'w dad, John Daniel James adael y tir oherwydd damwain ddifrifol a symud gyda'i wraig i Lundain, ond magwyd Henry a'i chwaer gyda theulu ei fam ym Mronllys, Borth.

Ar waetha ei ddiddordeb ysol yn y fferm a'i hanifeiliaid, gadawodd Henry'r ysgol i'w brentisio fel trydanydd gyda Thomas Brothers yn Aberystwyth. Wedi cyfarfod a phriodi Gladys, symudodd y ddau i Gaerdydd lle ddatblygodd ei sgiliau ymhellach ym maes trydan peirianyddol. Wedi 15 mlynedd dychwelodd ef a'i deulu i fro ei febyd, a threuliodd gweddill ei ddyddiau cyflogedig yn beiriannydd trydan a gwres yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

Fel y gwÐr y cyfarwydd yr oedd yn weithiwr cydwybodol iawn, yn berffeithydd ac yn rhoi cant y cant ym mhob gorchwyl a gymerai ati. Enynnodd barch, nid bychan, gan gylch eang o drigolion oherwydd ei agwedd ddibynnol a'i gymwynasgarwch parod.

Ond ar waethaf trymder ei waith, yr oedd ganddo amser i bobl, rhinwedd brin iawn yn yr oes hon. Treuliai oriau yn ymweld â'r hen a'r methedig yn yr ardal, nid unwaith ond droeon wedyn - gwr yr ail filltir oedd Henry. Galwai hefyd i weld sut yr oedd ambell newydd ddyfodiad yn setlo mewn yn yr ardal, a hynny'r ail waith hefyd.

Rhwng ei waith yn y maes trydanol, yr oedd wrth ei fodd yn magu ceffylau a defaid, a chofiwn amdano yn clirio'r llechwedd gyferbyn â'i gartref, gan godi daear las ar wyneb anial dir fel petai.

Bu'n aelod gwerthfawr o Glwb Pêl-droed Bow Street ac yn un o'r rhai blaenaf dros godi'r pafiliwn sydd heddiw ar gae'r Piod. Fel trysorydd y Clwb am flynyddoedd, gosododd sail ariannol gadarn i ddyfodol y Clwb presennol.


"Ffordd alla i weud wrtho ti...?" oedd ei sylw cyffredinol ar gychwyn sgwrs. Y gwir yw, fe wyddai yn iawn beth i'w ddweud, a hynny ran fynych mewn dull go bendant. Yn hyn o beth yr oedd yn eirwir a chadarn, heb ddal dig, ac fe'i perchid am hynny.

Gedy fwlch ym mywyd y teulu. Gwelir ei golli gan Gladys ei wraig a ofalodd yn dyner amdano yn ei waeledd, gan ei feibion y bu'n dad a roes hyder iddynt ar lwybrau eu galwedigaethau, a'r wyrion a feddyliai y byd o'u tad-cu. Ac i ninnau, ei gydnabod gedy chwithdod mawr o'r golli.



## LLYFRAU GAN AWDURON LLEOL

**Nerys Ann Jones**
*Hywel ab Owain Gwynedd,*
**Gwasg Prifysgol Cymru**
**£17.99 244t**





Casgliad sydd yma o chwech o ysgrifau gan rai o brif ysgolheigion llenyddiaeth a hanes Cymru yr oesoedd canol, sef Rhian M. Andrews, darlithydd hÐn yn Adran Astudiaethau Celtaidd Prifysgol y Frenhines, Belfast; Huw Meirion Edwards, Darlithydd yn Adran Gymraeg Prifysgol Aberystwyth; Dafydd Johnston, Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Nerys Ann Jones, Cymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn Adran Geltaidd Prifysgol Caeredin; Morfydd E. Owen, Cymrawd er Anrhydedd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, a J. Beverley Smith, Athro Emeritus Hanes Cymru, Prifysgol Aberystwyth.

Yn ogystal â'r chwe ysgrif ceir casgliad o'r cerddi a dadogir ar Hywel a thestunau amrywiol yn ymwneud ag ef, gan gynnwys testun achyddol, cofnodion Brut y Tywysogyon, detholiad o awdl fawreddog Cynddelw iddo ac englynion marwnad ingol ei frawd maeth, Peryf ap Cedifor. Dyma gyfrol sydd yn treiddio y tu hwnt i'r darlun rhamantus ac yn ceisio gosod Hywel a'i ganu yng nghyd-destun ei gyfnod, cyd-destun gwleidyddol a diwylliannol Gwynedd yn y ddeuddegfed ganrif.


Bydd y llyfr hwn yn anhepgor i fyfyrwyr ac ysgolorion iaith a llenyddiaeth Gymraeg a hanes Cymru. Bydd hefyd yn apelio at y darllenwr cyffredin sydd â diddordeb mewn hanes a diwylliant Cymru.

**R. Geraint Gruffydd**
*Y Ffordd Gadarn: Ysgrifau ar Lên a Chrefydd*
**Gwasg Bryntirion,**
**£14.95 344t**




Yn Y Ffordd Gadarn ceir detholiad o ysgrifau poblogaidd un o ffigyrau amlycaf y bywyd diwylliannol Cymraeg heddiw. Yn ogystal â bod yn ysgolhaig o'r radd flaenaf, mae'r awdur hefyd yn Gristion o argyhoeddiad dwfn, ac y mae llawer o'i waith yn canolbwyntio ar ddadansoddi a dehongli'r dreftadaeth Gristnogol Gymraeg. Mae tair rhan i'r gyfrol. Yn yr adran gyntaf trafodir materion y gellir eu galw'n 'uniongyrchol grefyddol'. Yn yr ail cawn ysgrifau ar wahanol agweddau ar lên a diwylliant Cristnogol Cymru o'r Diwygiad Protestannaidd ymlaen. Casgliad o ysgrifau mwy personol eu natur yw'r adran olaf, yn cynnwys teyrngedau i nifer o gydweithwyr a chyfeillion yr awdur. Golygydd y gyfrol yw Dr E. Wyn James, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a cheir rhagymadrodd gan yr Athro Bobi Jones.

**Geraint Nash a Sara Huws**
*Eglwys Sant Teilo*
**Llyfrau Amgueddfa Cymru**
**£3.99 48t**





Mae'r eglwys ganoloesol hon wedi dal dychymyg niferoedd o bobl dros y blynyddoedd. Mae'r llyfr hynod ddifyr yma'n mynd â chi ar y daith, o safle gwreiddiol yr Eglwys yn Llandeilo Tal-y-bont hyd at yr ailgread rhyfeddol o fanwl a phrydferth yn Sain Ffagan.

# *Cyngerdd 5 mlwydd Ger-y-lli*






Un o'r artistiaid gwadd oedd Rachel Blair o Rydypennau. Mae Rachel ar ei hail flwyddyn yn y Royal Northern College of Music ym Manceinion. Bydd yn treulio y flwyddyn nesaf ar gyfnewid yn Ysgol Opera Verona.



Artist arall oedd Mared Emyr o'r Borth



Meirion Morgan, aelod o'r Pwyllgor, yn cyflwyno rhodd lechen i Greg ar ran y Côr i ddiolch iddo am ei wasanaeth fel arweinydd.

templatelliw.indd 13 17/2/09 11:04:46

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**

7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

# COLOFN MRS JONES

Y mae newyddion yn bethau rhyfedd, hefyd. Nid oes sôn am fawr ddim heblaw'r eira ar y teledu a'r radio ond tybed ai am i Lundain a Chaerdydd gael eu heffeithio cynddrwg? Yn sicr, cymharol ychydig o sylw a roddwyd i'r eira yng Nghymru hyd oni y dechreuodd hi fwrw eira yng Nghaerdydd. A gallaf brofi hyn, oherwydd pan oedd gennym mi ym Mhenrhyn-coch eira sylweddol, fe ffoniodd fy mrawd fi o Gaerdydd. Rhyfeddodd pan ddywedais i wrtho ei bod hi'n ddrwg iawn ac eira yn drwch, rhyfeddodd am nad oedd wedi na gweld na chlywed dim ar y newyddion ac am nad oedd dim wedi syrthio yng Nghaerdydd. Ond, wrth gwrs, y munud y syrthiodd o yn fanno, roedd o ar y newyddion yn syth heb sôn fawr ddim am yr eira a fu ar arfordir y canolbarth. sAc os meddyliwch chi, cymharol ychydig o newyddion o'r canolbarth sydd ar y cyfryngau oni bai eich bod yn darllen newyddion gwefannau'r BBC a ITV.

Ynddo ei hun, ni fyddai nodi hyn yn fwy na mater o wên ond, yn anffodus, y mae'n arwydd o rywbeth dyfnach, tuedd y cyfryngau a'r Cynulliad i anwybyddu ardaloedd nad oes ganddynt drwch helaeth o boblogaeth. Dyna paham fod cymaint o wasanaethau a datblygiadau yn cael eu rhoi i'r de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain, yr hen gadarnleoedd diwydiannol sydd yn dal yn ganolfannau poblog o'u cymharu a, dyweder, Maldwyn neu Geredigion.

A gall fod yn ofnadwy o andwyol.Ystyriwch y trafod a fu yn ddiweddar ar yr angen i gael canolfannau llawdriniaethau niwrol ac a ddylid bod un yn Abertawe ac un yng Nghaerdydd ynteu eu crynhoi yn un yng Nghaerdydd. Dwy ganolfan o'r fath yn unig sydd yng Nghymru ac fe dybiech, felly, mae'r gwir angen fyddai un yn y de - Caerdydd neu Abertawe - ac un yn y gogledd, neu, os oedd pethau mor fain fel na fedrid fforddio dwy, sefydlu un ganolfan newydd mewn rhywle canolog fel Aberystwyth. Ac y mae un peth yn wir am Aberystwyth, yr un hyd siwrne yw hi yma o Gaerdydd neu Gaergybi! A diau i hynny fod yn faen prawf pan feddyliodd y Cynulliad am osod swyddfa yn y dref, dim ond gobeithio y cofia bod angen i'w staff adlewyrchu patrwm ieithyddol yr ardal ac nid patrwn ieithyddol Caerdydd neu fe welwn ni baradocs adfydus, cynulliad sydd yn deddfu o blaid yr iaith yn gweithio er afles iddi yn un o'i chymunedau Cymreiciaf.

Wrth gwrs, un o ofnau mawr Lloegr oedd y byddai unrhyw senedd Gymreig yn syrthio i'r fagl De/Gogledd ac, i ryw raddau, y mae'r Cynulliad wedi osgoi hyn. Yn hytrach, y maent yn syrthio i fagl arall na ragwelodd neb mohoni, hyd y gwn i. A'r fagl honno,wrth gwrs, yw canolbwyntio yn ormodol ar ardaloedd megis Morgannwg a Mynwy a rhannau diwydiannol Dinbych a Fflint nid yn unig, mi dybiaf, am mai dyma lle y mae trwch y boblogaeth yn byw, ond am mai dyma hefyd gadarnleoedd yr hen Lafur a'r ardaloedd y mae'r Blaid yn ennill tir ynddynt. Ac y mae hyn yn gadael pobl fel chi a fi mewn rhyw fath o limbo. Rydym yn ychydig o ran rhif, y mae'n pleidleisau unai yn rhai diogel ym marn y partion (Y Blaid a'r Rhyddfrydwyr) neu yn rhai y maent yn gwybod nad oes ganddynt obaith caneri o'u derbyn mewn digon o niferoedd i ennill grym (y Ceidwadwyr, Llafur a'r gweddill!). Nid oes dim yma i demtio'r Cynulliad i ddarparu gwellhad buan mewn pethau fel ffyrdd ac iechyd a swyddi ar ein cyfer. Dyma'r fagl y syrthiodd y Llyfrgell iddo ac os na fedr sefydliad cenedlaethol yn y canolbarth ddenu digon o arian o'r cynulliad i wneud dim ond cynnig yr un gwasanaeth heb sôn am ei ddatblygu, yna mae hi'n go ddrwg arnom, mi gredaf. (A chyda llaw, i'r rheiny ohonoch sydd yn gwybod i'r Llyfrgell dderbyn grantiau mawr i gynlluniau penodedig ac sydd, o'r herwydd, yn methu a deall paham fod ganddi broblemau, y mae'n rhaid i chi gofio na chaiff wario arian cynlluniau ar gostau rhedeg megis agor ar Sadyrnau).

Dyma'r lle pryd y dylwn ei gwneud hi'n gwbl amlwg nad wyf yn gweld bai ar weithgaredd y rhai sydd yn ein cynrychioli ni yn y Cynulliad. Maent yn gweithio yn galed o'n plaid ac yn cyflawni yn rhyfeddol. Ond y mae angen i'r Cynulliad drio ei gweld hi a chofio amdanom ni, ceisio ei orau i ddatblygu gwasanaethau meddygol, er enghraifft, fel nad ydym yn gorfod mynd i Gaerfyrddin neu Abertawe. Dylent beidio bod ag ofn mentro lleoli sefydliadau arbenigol i wasanaethu Cymru gyfan yma gan fanteisio yn llawn ar hygyrchedd yr ardal. Ond rhaid i ninnau eu cynorthwyo, nid yn unig trwy ddweud yr hyn yr hoffem ei gael, ond trwy beidio a phrotestio yn erbyn datblygiadau. Un o'r pethau y gellid - yn wir y dylid - ei wneud yw datblygu maes awyr y Trallwng i fod o leiaf yn faes awyr y gellid ei ddefnyddio i gysylltu â Maes Awyr Caerdydd neu Môn os nad yn faes awyr llawn. Ond pe awgrymid hynny, neu pes awgrymid sefydlu un newydd yn yr ardal hon, fe fyddai protest a rwystrai'r datblygiad yn syth.Yfi fyddai'r cyntaf i ddweud fod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad fod yn un cydnaws a chadwraeth ond y fi hefyd fyddai'r cyntaf i ddweud fod gennym angen swyddi i gadw ein plant a'n pobl ieuanc adref. Mae pawb yn cael y llywodraeth y maent yn eu haeddu a hyd oni osodwn ni bwysau ar y cynulliad i weithredu drosom, fe bery'r sefyllfa hon.

Ac wrth sôn am weithredu lleol, mae holiaduron y neuadd o'r diwedd wedi eu dosbarthu. Dyma'ch cyfle chi i ddweud beth ydych chi am ei weld yn cael ei sefydlu a'ch cyfle chi i wirfoddoli i wireddu'r cynllun. Peidiwch ag anwybyddu'r holiadur, llenwch ef a'i ddychwelyd fel y gall neuadd bentref newydd a deinamig godi yn etifedd gwiw i'r weledigaeth a sefydlodd y neuadd wreiddiol.

## COLOFNYDD Y MIS



**Cyfres lle bydd rhai a fagwyd yn ardal y Tincer sydd ar wasgar yn cyfrannu colofn.**

# Carwyn Fowler

**Cadw golwg ar *GOLWG*: cyfle a chyfrifoldeb i'r papurau bro**

Rhwng 2006 a 2007, roeddwn yn ohebydd dros gylchgrawn *Golwg* yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ar y pryd, roedd disgwyl mawr am ddyfodiad papur dyddiol *Y Byd*, a darogan am ba effaith 'roedd *Y Byd*, am gael ar ddyfodol *Golwg*.

Yn bersonol, roeddwn yn awyddus i weld gohebydd o'r *Byd* yn ymuno â mi yn y Cynulliad. Byddai'r gystadleuaeth ar gyfer y sgŵps a'r cyfweliadau gorau wedi bod yn sbardun i bob un ohonom oedd yn gohebu yn y Gymraeg o'r Cynulliad.

Bellach, mae'r syniad o bapur dyddiol printiedig Cymraeg wedi encilio (am y tro), ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad benderfynu yn Chwefror 2008 i ariannu gwasanaeth newydd *Golwg* ar y wê. Nid wyf am ychwanegu at y drafodaeth hon. Yn hytrach, hoffwn drafod rôl y papurau bro, a'r *Tincer* yn arbennig, yn sgîl diwedd *Y Byd*."

Eisoes, mae'r *Tincer* wedi cymryd camau sylweddol tuag at fod yn fisolyn cyfoes a bywiog o dan adain eich golygydd. Ond i ba raddau mae lle eto i'r *Tincer*, a'r papurau bro eraill, i holi'n galetach ar ddigwyddiadau sydd yn effeithio ar fywyd lleol?

Gadewch i ni ystyried rhifyn *Y Tincer* (Hydref 2008, tud. 7). Yno, deallwn bod Yr Arglwydd Elystan Morgan — sydd yn byw yn ardal *Y Tincer* - wedi traddodi darlith yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell Genedlaethol, a bod y ddarlith am ymddangos ar wefan y Llyfrgell.

Ond beth oedd prif neges darlith yr Arglwydd Elystan? Onid oedd cyfle i'r *Tincer* gyfweld ag Elystan yn sgîl ei ddarlith?

Mae'r dirwasgiad yn sicr o effeithio ar economi bro'r *Y Tincer*, ac am ddylanwadu'n drwm ar fywyd ei ddarllenwyr. Fel yr unig Aelod Seneddol Llafur yn hanes Ceredigion, beth, tybed, fyddai gan Elystan i ddweud am ymdrechion Gordon Brown i ddelio gyda'r hinsawdd economaidd? Cyfle i'r *Tincer*, efallai, i bachu sgŵp bach o dan drwyn *Golwg*, y BBC a gwefan y Llyfrgell "Gen", hyd yn oed!?

Mae Cymru wedi newid, ar lawer i ystyr, ers sefydlu'r *Tincer* ym 1977. Mae sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dod â rhyddid i'r genedl Gymreig i ddewis ei dyfodol ei hun. Ond, un o hanfodion cenedl rydd yw gwasg agored a chystadleuol.

Yn anffodus, mae'r wasg Gymreig (iaith Saesneg) yn gaeth i ymerodraethau preifat fel Trinity Mirror (sydd yn berchen ar y *Western Mail*). Yn y Gymraeg, mae'r cysylltiad ariannol rhwng *Golwg* a'r Llywodraeth wedi cryfhau ar ôl penderfyniad mawr Chwefror 2008.

Diolch i'r drefn, mae'r papurau bro yn parhau i fod yn fentrau annibynnol. Bellach, mae'n bryd dod â'r annibyniaeth hwnnw i'r amlwg trwy gynnig ffurf caletach o newyddiaduraeth. Mae tudalennau'r *Tincer* eisoes yn dangos yr amrywiaeth sydd yn perthyn i fywyd Cymraeg gogledd Ceredigion. Mae cymaint o gyfleoedd ar gyfer newyddion cyfoes a heriol, heb hepgor yr adroddiadau o'r ysgolion, y capeli a'r cymdeithasau.

Yn sgîl diwedd *Y Byd*, onid yw'n bryd i agor trafodaeth am beth yw cyfrifoldebau'r papurau bro — gan gynnwys *Y Tincer* - ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?

Ar ôl graddio ym Mhrifysgol Ystrad Clud, Glasgow bu Carwyn yn fyfyriwr ymchwil yng Nghaerdydd. Wedi cyfnodau fel gohebydd gwleidyddol *Golwg* a Swyddog Prosiect Gwastraff Cadwch Cymru'n Daclus mae ers dechrau Ionawr yn Swddog Datblygu Cymru Gwasanaeth y Gyfraith i 'r Anabl. Mae'n byw gyda'i wraig Kathryn a'u merch Heledd ym Mhorth Tywyn.

Yn 2008 roedd yn gyd-awdur gyda Rhys Jones y gyfrol *Placing the Nation: Aberystwyth and the reproduction of Welsh nationalism.* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2008).

Bydd yn rhedeg Marathon Llundain ar 26 Ebrill; mae eisoes wedi codi £2,000 i Gymdeithas Clefyd Parkinson's. Os hoffech ei noddi gellir cysylltu trwy Facebook neu www.justgiving.com/carwyn.

**Carwyn Fowler**

**Y mis nesa: Garmon Ceiro**

## C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

**Cwis y Sir**
Cynhaliwyd cwis y sir ar y 27ain o Dachwedd. Bu tipyn o grafu pen ond llongyfarchiadau i'r clybiau canlynol ar ddod i'r brig eleni:-
Cwis Cyffredinol — Cydradd 1af Felin-fach a Llangeitho; 3ydd Llanwenog
Cwis Amaeth — 1af Trisant; 2il Felin-fach; 3ydd Llanwenog
Canlyniadau Terfynol — 1af Felin-fach; 2il Trisant; 3ydd Llanwenog.

**Ffair Aeaf**
Bu nifer o aelodau yn cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol gyda'r mudiad yn Llanelwedd ar y 1af a'r 2il o Ragfyr yn ystod y ffair aeaf. Daeth tipyn o lwyddiant i Geredigion — llongyfarchiadau i bawb! Dyma'r canlyniadau:-

**Barnu carcas Ŵyn**
**Dan 16** — Dewi Jones, Tal-y-bont 1af
**Dan 18** — Delyth Jones, Tregaron 1af
**Dan 21** — Eleri Jones, Tregaron 1af
**Dan 26** — Steffan Davies, Llanwenog 2il
**Tîm** — 1af

**Barnu Gwartheg Cigyddion**
**Dan 16** — Dyfrig Williams, Llangwyryfon
**Dan 18** — Delyth Jones, Tregaron
**Dan 21** — Eleri Jones, Tregaron
**Dan 26** — Menna Davies, Dihewyd
**Tîm** — 1af

Yn dilyn y cystadlaethau barnu daeth Ceredigion yn 2il agos — pwynt ar ôl yr enillwyr sef sir Drefaldwyn.

**Her ATV**
Llŷr Evans, Troed-yr-aur 1af

**Cynllun Menter CFfI Cymru**
Yn ystod y ffair, anrhydeddwyd Sioned Jones, C.Ff.I. Troed-yr-aur, gyda thlws a gwobr ariannol o £800 sef y brif wobr eleni. Mae Sioned wedi trawsnewid hen adeilad ar y fferm deuluol sef Pengallt, ger Llandysul i 'ysgubor harddwch a sba diwrnod'. Llongyfarchiadau mawr i ti Sioned a dymuniadau gorau gyda'r fusnes i'r dyfodol.


**Siarad Cyhoeddus Cymraeg**
Cynhaliwyd tair noson lwyddiannus ym Mhrifysgol Cymru, Llanbed ar y 14-16eg o Ionawr, 2009. Clywyd siarad graenus a darllen huawdl a llongyfarchiadau i'r 176 o aelodau a fu yn cystadlu. Dyma'r aelodau a ddaeth i'r brig:-
Dan 14 — Tîm Pontsian B yn 1af— Siriol Teifi, Guto Thomas a Gwenyth Richards
Cadeirydd a darllenydd gorau — Sioned Thomas, Trisant B
Dan16 — Tîm Mydroilyn yn 1af — Gwenan Davies, Morgan Davies a Lia Jones.
Cadeirydd gorau — Ffiona Henson, Llanddeiniol A; Siaradwr gorau — Sarah Evans, Caerwedros B; Diolchydd gorau — Gwenan Davies, Mydroilyn.
Dan 21 — Tîm Llanwenog yn 1af — Enfys Hatcher, Steffan Davies, Cerys Jones a Heilin Thomas. Cadeirydd gorau — Enfys Hatcher, Llanwenog; Siaradwr gorau — Cerys Jones, Llanwenog
Dan 26 — Tîm Llanwenog A yn 1af — Rhian Bellamy, Helen Howells, Lyn Jenkins a Manon Richards. Cadeirydd gorau — Rhian Bellamy, Llanwenog A; Siaradwr gorau — Manon Richards, Llanwenog A.
Ar ddiwedd y cystadlu, C.Ff.I. Llanwenog oedd ar y brig gyda C.Ff.I. Pontsian yn ail. Llongyfarchiadau i bawb!

**Digwyddiadau**
**Chwefror 16-20 a 23**
Cystadleuaeth adloniant y mudiad. Dros wythnos o bantomeim yn Theatr Felin-fach. Tocynnau ar werth ar yr 2il o Chwefror o swyddfa C.Ff.I. Ceredigion. Am fwy o fanylion ffoniwch 01545 571 333.
**Chwefror 24** Y tri phanto buddugol yn perfformio yn Theatr Felin-fach.
**Mawrth 6** Dawns dewis swyddogion C.Ff.I. Ceredigion yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth.
**Mawrth 13** Rhowch gynnig arni — noson arbennig i gyn-aelodau'r mudiad yng Ngwesty Llanina, Llanarth. Croeso cynnes i bawb — noson gymdeithasol yng nghwmni hen ffrindiau!

# YSGOL RHYDYPENNAU



Wrth resynu fod yr adeilad hardd a godwyd ym 1876 gan Thomas Jones y Dolau a'i grefftwyr da yn wag a'i ffenestri wedi'u byrddio (oni ddylid fod wedi mynd ati i'w ddiogelu?), mae'n dda cael manylu ar hanes John Evans(1858-1933) o Lanbryn-mair, yr ail brifathro (1879-1892) ,y bu cryn ganmol ar ei wasanaeth i'r ysgol a'r gymuned. Ddwy flynedd yn ôl cyhoeddodd fy nghyfaill Ieuan Davies (ei wreiddiau yn y Borth), un o weinidogion amlwg yr Annibynwyr ei hunangofiant diddorol, *Trwy Lygaid Tymblwr — A Gweinidog!* sy'n cynnwys dau lun o John Evans a oedd yn frawd i'w hen nain. Yn y llun cyntaf fe'i gwelir yn fachgen yng nghwmni'i chwiorydd Ann a Mary a Hannah y fam,a faged yn Nhrefeglwys, yn eu cartref yn NhÐ'n-Ddôl, Llanbryn-mair, nid nepell o Hafod y Foel a Foel Fach lle trigai fy hynafiaid i ddwy ganrif a hanner yn ôl.



John Evans

Tynnwyd yr ail lun flynyddoedd yn ddiweddarach ac odano ceir y llythrennau, M.A; F.L.S; H.M.I.; ac Y.H.. Yn ei ymyl y mae llun o ferch hynaf John Evans a'i wraig; Elizabeth a aned yn Wandsworth, Surrey, Frances Juan a anwyd ym Mhen-y-garn ym 1881. Hi oedd Prifathrawes gyntaf Ysgol y Merched, Cyfarthfa (Ysgoly Castell), Merthyr Tudful, a phriododd yr Athro Atkinson-Lee. Ymhen dwy flynedd ganed chwaer iddi, Bessie a fu farw cyn cyrraedd wyth oed yn ôl ei charreg fedd, yr un agosaf at fedd fy nghyfaill Deulwyn Morgan ym Mynwent y Garn.

Un o ddisgyblion John Evans yn Ysgol Rhydypennau oedd yr Athro William Jenkyn Jones (1867-1934), un o blant Thomas Jones y Dolau ac Ellen ei wraig, gÐr amlwg yng Ngholeg Aberystwyth lle bu'n Athro Athroniaeth am gyfnod hir. Yn ddiweddar cyflwynodd Ieuan gopi imi o deyrnged yr Athro i John Evans adeg ei farw yng Ngorffennaf 1933, a dyma ambell sylw ohoni: 'Dyn anghyffredin oedd ef, a meddai ar alluoedd a chymeriad a barai ei barchu a'i hoffi ym mhob cylch y troai ynddo. Wedi iddo ennill y lle blaenaf yng Ngholeg y Normal Bangor, apwyntiwyd ef pan oedd tuag un ar hugain oed yn Brifathro arnom. Llafuriodd yma am dair blynedd ar ddeg gan adael ei ôl ar y plant a phobl ieuanc yr ardal.

Heblaw dysgu pynciau arferol ysgol yn y dydd, cynhaliai ddosbarthiadau mewn gwyddoniaeth yn yr hwyr, dan nawdd Adran Gwyddoniaeth a Chelfyddyd South Kensington...Y syniad a roddai inni am lwyddiant oedd diwyllio'r meddwl â gwasanaeth. Ymdrafferthai i greu ynom gariad at bethau cain a phrydferth, a gwnâi hyn yn ffordd Plato, trwy beri fod esiamplau o'r pethau hyn ger ein bron yn feunyddiol — darluniau, blodau, planhigion ac ati. Ffurfiodd amgueddfa fechan yn yr ysgol flynyddoedd cyn bod hynny'n arferol...Yr oedd yn dra uchelgeisiol, ac yn enghraifft nodedig o ddyn wedi ei feddiannu gan 'ddwyfol anesmwythyd' Ceir cofnod yn y Llyfr Log am 18 Gorffennaf,1883, gan John Evans yn dweud iddo gyflwyno 90 o'i lyfrau i'r ysgol i greu math ar lyfrgell fenthyg.

'Cyflawnodd ei holl swyddi — ysgolfeistr, arholwr ysgolion, blaenor eglwys — yn drwyadl, yn onest ac yn ddisglair. Mewn un peth yr oedd yn esiampl wych i flaenoriaid drwy ddal mai dyletswydd pennaf blaenor oedd cynnal dwylo'r gweinidog'.Mae mab y Dolau yn cyfeirio at eirda Dewi Morgan i'w hen athro yn y llyfryn a gyhoeddwyd ym 1933 i ddathlu canmlwydd y Garn: 'Bu'n arolygwr yr Ysgol Sul, a chredwn mai ef oedd y cyntaf i gynnal Cymdeithas Lenyddol (mae'n parhau hyd heddiw) yma. *Caniadau Islwyn*, ac *Oriau'r Hwyr*, Ceiriog oedd y llyfrau a ddarllenid'.

Dyfynnir sylwadau eraill yn y cofiant rhagorol a luniodd un o blant disglair y Garn, Nerys Ann Jones i Dewi Morgan ym 1987: 'Mewn cyfarfod lleol a gynhaliwyd i'w anrhydeddu ar ei fuddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli 1925 (ennill y gadair am ei awdl 'Cantre'r Gwaelod'), dywedodd Dewi mai'r ddau ddylanwad mawr ar ei fywyd oedd John Evans a T. Gwynn Jones. Yn ôl Dewi ef oedd yr athro ysgol gorau yn y wlad. Dywedwyd amdano yn y *Cambrian News*, 'A man of splendid energy and unquestionable tact, he taught the children in their native tongue and thus brought them up'. Roedd hyn yn eithriadol mewn cyfnod pryd y gwgid ar yr arfer o ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion ....

Yn y cyfarfod llongyfarch ym 1925 soniodd John Evans sut y cadwai lygad ar Ddewi ar ôl oriau ysgol gan nad oedd Garn House (ei gartref) nepell o'r ysgol, 'Plentyn tawel ydoedd a digyffro. Yr oedd yn feddylgar a ddim yn siaradwr mawr. Darllenai lawer. Meddai ar allu pur arbennig i ddisgrifio ac yr oedd yn hoff o bethau cain'.Un arall o ddisgyblion disglair John Evans oedd J.J.Williams,Taigwynion, llenor a bardd a enillodd ddwy gadair Genedlaethol, Archdderwydd a gweinidog eglwys fwyaf yr Annibynwyr yn y Tabernacl, Treforys, yr eglwys y bu Ieuan Davies yn weinidog arni cyn ymddeol. Roedd J.J. yn ddeg oed pan ddaeth John Evans i'r ysgol a bu yno am bedair blynedd cyn symud gyda'i deulu i Benrhiw-ceibr.

'Yr oedd elfen gyfrin gref yn ei natur', meddai Jenkyn Jones yn ei deyrnged, 'a pharai hyn fod addoli yn beth hawdd iddo er na chymerai ran yn yr oedfaon'. 'Nid wyf wedi arfer gweddio'n gyhoeddus, ond byddaf yn aml yn gweddio wrth drefnu'r ardd, neu rodio ynddi', yw sylw John Evans. Ychwanega Jenkyn Jones: 'Pa weddio a allai fod yn fwy real na hyn? Onid gweddi a esgynnodd o ardd yw y ddwysaf a dwyfolaf a gofnodir?'

Ym 1892 symudodd John Evans i Ferthyr lle bu'n Arolygydd Ysgolion, yn ddiacon yn Eglwys Annibynnol Soar, ac yn weithgar mewn sawl cymdeithas. Rhoes Prifysgol Cymru y radd M.A; iddo adeg ei ymddeoliad ym 1923. Dychwelodd i Lanbryn-mair am gyfnod a gweithredodd fel Ynad Heddwch. Dychwelodd i Ferthyr pan oedd ei wraig yn wael ac yno y bu yntau farw ar 11 Gorffennaf 1933 yn 75 oed, a'i gladdu ym mynwent yr Hen Gapel, Llanbryn-mair .Os oes gan ddisgynyddion rhai fu yn yr ysgol yng nghyfnod John Evans wybodaeth amdano cysylltwch â mi.

**W.J. Edwards**

**'Hen le hoff ar ael y bryn,**
**Hen le antur pob plentyn'**
**Ifor Davies**

ytincer@googlemail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol



Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar
01974 282624
07773978352

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

# YSGOL PEN-LLWYN

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lauren White ar dderbyn gwobr am ei llun o Dân Gwyllt mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y 'Round Table', Aberystwyth.

## Ymweliad â Nant yr Arian

Cafodd dosbarth un hwyl yn mynd am dro yn chwilio am Siôn Corn. Roedd yn werth cael hyd i'r hen frawd gan iddynt gael anrheg yr un ganddo a chael mynd ati i greu cerdyn Nadolig deniadol iawn.

## Cyngerdd Nadolig Pen-llwyn

Aethom tua'r capel eleni i gynnal cyngerdd oedd yn dweud hanes y Geni. Sêr y Nadolig oedd y cynhyrchiad eleni. Fe gymerodd pob plentyn ran unigol gan wneud eu gwaith yn rhagorol. Carem fel ysgol ddiolch i Louise Herschel am wneud y gwisgoedd pwrpasol eto eleni.

## Ffair Nadolig

Cafwyd noson ardderchog wedi ei threfnu'n chwaethus gan rieni blwyddyn 6. Llanwyd y neuadd a'r dosbarthiadau gan stondinau amrywiol yn llawn nwyddau deniadol i'w prynu at y Nadolig. Digon o chwaraeon i'r plant ac wrth gwrs roedd Siôn Corn yn ei grotto. Diolch i chi i gyd fel rhieni am drefnu'r noson.

## Y Sinema a'r Cinio Nadolig

Wedi gweithio'n galed at y cyngerdd a gwaith ysgol y tymor cafwyd trip i'r sinema yn ystod yr wythnos olaf i weld 'Kung Fu Panda' ac yna cinio blasus wedi ei goginio gan Alwena'r diwrnod canlynol. Diolchwyd iddi gan Oliver a Tomos Nicholls am ei gwaith yn y gegin yn ystod y flwyddyn. Diolch i ti Alwena.

## Y Tymor Newydd

Braf yw croesawu un o gyn-ddisgyblion yr ysgol. Bydd yn treulio cyfnodau o'i chwrs coleg yn hyfforddi yn nosbarth Un. Croeso mawr i ti Christine Williams, mae'r plant yn mwynhau dy gymorth a dy gwmni yn fawr iawn.

## Y Cynulliad

Daeth Kate Gravelle atom o'r cynulliad i siarad gyda dosbarth 2 am y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn ein cynulliad newydd yng Nghaerdydd. Bu'r bore mor llwyddiannus fel y bu i un ddweud, "mae pawb eisiau mynd i weithio i'r cynulliad nawr".

## Amgueddfa Wlân Drefach Felindre

Er iddi fod yn ddiwrnod gwlyb cafwyd diwrnod ardderchog yn y felin wlân yn Drefach Felindre. Cafwyd y profiad o gribo gwlân, nyddu a gwead, yr hen ddulliau o drin y gwlân ac yna gweld dilledyn gorffenedig. Prynhawn o wehyddu ar gyfer pob plentyn a chael dod a'u gÐydd adref efo nhw. Diwrnod ardderchog ac fe fyddwn yn parhau i wehyddu yn Nosbarth 2 am weddill y tymor.

## Arad Goch

Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i'r ysgol er mwyn rhoi perfformiad o 'Dros y Garreg' i blant Cyfnod Allweddol 1. Cafwyd gweithdy difyr i ddilyn a rhannwyd y profiad gyda phlant Syr John Rhys, Mynach a Chapel Seion. Thema'r cynhyrchiad oedd cyfeillgarwch a chafodd y plant weld y prif gymeriad Lizzie yn ymddwyn yn garedig ac yn gas tuag at ei ffrindiau cyn cael y cyfle i drafod sut mae bod yn ffrind da.

## Gala Nofio

Cymerodd nifer o ddisgyblion CA2 rhan yn y gala nofio'r tymor hwn. Aeth chwech o blant Pen-llwyn i'r Gala ar gyfer ysgolion bach, Oliver, Jo, Rhian, Amy, Iestyn a Manon. Aeth Manon, Iestyn, Jo a Rhian i'r rownd derfynol a chael canlyniadau ardderchog. Llongyfarchiadau i'r chwech a gymerodd ran.

## Dillad Pêl-droed newydd

Diolch i Mel Evans o Mid Wales Travel am noddi'r cit pêl-droed newydd. Mae'r plant yn edrych ymlaen yn fawr am eu dillad newydd.

## Gwellhad buan

Carem ddymuno gwellhad buan i'n cogyddes Alwena Pugh. Croeso cynnes iawn i Tina sy'n coginio yn ystod absenoldeb Alwena.



Ffair Nadolig Ysgol Pen-llwyn Nadolig 2008



Plant yr Urdd yn gwneud addurniadau Nadolig gyda Melanie



Plant Dosbarth 1 Pen-llwyn yn trafod y Cristingl gyda'r Parchedig John Livingstone



Plant Dosbarth 2 Pen-llwyn yn y Felin Wlân yn Drefach Felindre

templatelliw.indd 17 17/2/09 11:05:03

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Ymweliadau

Mae'r prysurdeb yn yr ysgol yn parhau gyda nifer o ymweliadau, digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol.

### Gwyddoniaeth

Bu blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â'r Brifysgol yn Aberystwyth er mwyn derbyn darlith ar wyddoniaeth gan y Cemegydd enwog Dr A.J.S Williams MBE. Pwrpas y ddarlith oedd sicrhau diddordeb y disgyblion yn y pwnc a rhoi cyfle i'r plant ymuno mewn arbrofion ymarferol ar egni a grym. Cafwyd bore difyr iawn.

### Stwffio

Ar y 14eg o Ionawr cafwyd ymweliad gan ddau o gyflwynwyr 'Stwffio'. Rhaglen deledu yw 'Stwffio' sy'n ymdrin â bwyd a choginio. Cafwyd nifer o weithgareddau diddorol ganddynt a llawer o hwyl a sbri.

### Arad Goch

Ar y 23ain o Ionawr, bu blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau perfformiad gan Gwmni Arad Goch yn neuadd yr ysgol. Enw'r perfformiad oedd 'Dros y Garreg'. Roedd y ddrama yn delio â phwysigrwydd cyfeillgarwch a sut mae trin eich ffrindiau yn iawn.

Fel arfer, cafwyd perfformiad arbennig o dda gan Arad Goch ac fe elwodd y plant yn fawr iawn o'r ddrama a'r gweithgareddau difyr a drefnwyd gan y cwmni yn dilyn y perfformiad.

### Chwaraeon
### Pêl-Rwyd

Bu'r tîm pêl-rwyd yn cystadlu yn ddiweddar ym mhencampwriaeth blynyddol Yr Urdd, yn y ganolfan hamdden ym Mhlas-crug. Curodd y merched nifer o ysgolion y cylch i gyrraedd y rownd derfynol. Yn anffodus, colli oedd yr hanes yn y ffeinal o drwch blewyn, ond cafwyd perfformiad neilltuol o dda gan pob aelod o'r tîm.

### Nofio

Ar yr 2il o Chwefror cynhaliwyd rownd derfynol gala nofio ysgolion Aberystwyth. Nofiodd y plant yn dda iawn a llwyddodd nifer o'r plant i orffen yn y 3 cyntaf. Llongyfarchiadau i'r canlynol; Ffion Wyn Roberts bl 5 (rhydd — 1af), Elizabeth Jackson bl 6 (cefn — 2ail), Jake Albrighton (cefn-2il), Lucy Ankin bl 5 (cefn -1af), Megan Mason bl 4 (cefn-1af), Joshua Erskine bl 4 (cefn-3ydd), Rachel Howard bl 6 (broga-2il), Lorna Harper bl 5 (broga-1af), Sion Manley bl 4 (broga-2il), cyfnewid cymysg bechgyn bl 3 a 4, (Sion Manley, Cameron Saunders, Trystan Griffiths, Joshua Erskine-3ydd), cyfnewid cymysg merched bl 5 (Lorna Harper, Lucy Ankin, Ffion Wyn, Ffion Evans-1af), Cyfnewid Cymysg merched bl 6 (Rachel Howard, Cara Lucas, Elizabeth Jackson, Kelly Harper— 1af), cyfnewid rhydd bechgyn blwyddyn 3 a 4 (Sion Manley, Cameron Saunders, Trystan Griffiths, Joshua Erskine-3ydd), cyfnewid rhydd bl 5 (Lucy Ankin, Ffion Wyn, Ffion Evans, Lorna Harper-1af), cyfnewid rhydd bechgyn bl 5 (Guto Havard, Elis Lewis, Aaron Bull, Sion Ewart-3ydd), cyfnewid rhydd merched bl 6 (Rachel Howard, Cara Lucas, Bethan Henley, Kelly Harper— 1af) cyfnewid rhydd bechgyn bl 6 (Jake albrighton, James Albrighton, Gruffudd Owen, Tomos Watkin-1af) Ardderchog!

### Hoci

Dyma ganlyniadau diweddar y ddau dîm hoci.
Rhydypennau A — 4; Cwmpadarn — 0.
Rhydypennau A — 4; Ysgol Gymraeg A — 0.
Rhydypennau A — 3; Llanilar A — 1.
Rhydypennau B — 3; Llwyn yr Eos B — 1.

### Pêl-droed

Rhydypennau A - 1; Llanilar A — 1
Rhydypennau B — 2; Llanilar B - 0

Gwefan yr Ysgol
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk










MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

# YSGOL PENRHYN-COCH




### Cylch Meithrin

Croeso i Gylch Meithrin Trefeurig atom ar safle'r ysgol. Braf ydy eu croesawi yma ers cychwyn mis Ionawr. Croeso i'r staff, y rhieni a'i disgyblion.

### Ger y Lli

Ar nos Wener cyntaf mis Chwefror, cynhaliwyd Cyngerdd arbennig i ddathlu penblwydd Cor Ger y Lli yn bump oed. Bu'r ysgol yn ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad i fod yn rhan o'r dathliadau. Aethpwyd a pharti o ddisgyblion i gymeryd rhan ac fe'u gwelwyd yn canu dwy gân. Rhwng y tywydd a salwch dim ond wyth oedd yn y parti ond cafwyd noson hwyliog a llongyfarchiadau iddynt am eu perfformiad. Hefyd yn y noson gwelwyd Mared yn chwarae eitemau ar y Delyn.

### Cwis Llyfrau

Braf oedd derbyn gwybodaeth fod y tri thîm cwis llyfrau wedi llwyddo i ennill drwodd i rownd nesaf y cwis. Yn y rownd nesaf byddant yn darllen am Achub Myrffi . Diolch i Gwenda Wallace am ei gwaith gyda'r paratoadau. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf.


### Kingswood

Ar y 18fed o Fedi 2009 aeth naw o ddisgyblion blwyddyn pedwar i ganolfan Kingswood yn swydd Stafford. Yn Kingswood buon yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau fel abseiling, gwîb gartio, zip wire, ffensio, laser zone a caving yn ogystal a defnyddio sgiliau gwyddoniaeth fforensig i ddarganfod lleidr. Gwnaeth pawb fwynhau yn fawr iawn (a bihafio!) a cael lot o sbort wrth drio gweithgareddau newydd a gwahanol.

### Pel-rwyd.

Bu tîm pel-rwyd yr ysgol yn chwarae yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd, Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Cafwyd llawer o chwarae ac ymdrechion da gan aelodau'r tîmond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rwond nesaf. Da iawn i bob un am eu hymdrech ac i Miss Edwards am eu hyffroddi yn wythnosol.





# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ionawr 29ain o dan lywyddiaeth y Cyng. John Evans. Hon oedd noson gosod y praesept am y cyfnod 2009-2010. Wedi trafodaeth penderfynwyd ar praesept o £13,500, sy'n golygu treth o £16.37 ar annedd sydd mewn band D.

Hon hefyd oedd noson didoli cyfraniadau tuag at nifer o geisiadau gan fudiadau lleol. Penderfynwyd peidio â chyfrannu bellach at geisiadau gan fudiadau cenedlaethol y tu allan i'r gymuned. Dyma'r symiau a ddosberthir eleni:

Cyfeillion Cartref Tregerddan £100, **Y Tincer** £250, Maes Chwarae Rhydypennau £400, Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre £150, Mynwent Capel y Garn £150, Mynwent Hebzibah (Clarach) £75, Clwb Hoci Bow Street £100, Cylch Meithrin £100, Ysgol Rhydypennau £100. Gwnaed un cyfraniad arbennig at fudiad tu allan i'r ardal, sef Ambiwlans Awyr Cymru £50.

Adroddwyd bod cyfarfod wedi bod rhwng trigolion Maesafallen a swyddogion Cyngor Sir Ceredigion, a bu'n drafodaeth fuddiol. Rhoddwyd amcangyfri' o £85,000 y bydd angen ar 52 o anheddau i'w ysgwyddo cyn i weddill yr ystâd cael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Ar hyn o bryd mae 29 o'r trethdalwyr yn barod i fentro, cyfartaledd digonol mae'n debyg gan y Cyngor Sir.

Er mwyn arbed arian, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu diffodd goleuadau rhwng hanner nos a 5 y bore yn y gymuned. (Nid ar y ffordd fawr). Ond mi all y Cyngor Cymuned dalu i'w cadw ymlaen. Ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad, dim ond gofyn am gopi o fap sy'n dangos faint o lampau sydd yn ein hardal.

Ffyrdd. Datgelwyd bod dynes lolipop wedi cychwyn ar ei swydd wrth Ysgol Rhydypennau a bod canmoliaeth i'w gwaith, a'r lle yn llawer mwy diogel i'r plant groesi.

Y llain werdd ar waelod Maesceiro. Dywedwyd bod trigolion yr ystâd yn cael y cynnig cyntaf i rentu'r tir am £1 y flwyddyn. Nid oes sicrwydd eto pwy fydd yn clirio'r llain.

Materion cynllunio. Ceisiadau sydd wedi bod ger bron o'r blaen: 1. Cais am godi 2 annedd ar dir ger yr Hen Ficerdy, Clarach. Yr apêl yn erbyn y gwrthodiad gan y Cyngor Sir wedi ei ddileu. 2. Cais amlinellol er mwyn dymchwel tÐ fferm Rhydtir Isaf a chodi annedd newydd wedi ei dynnu'n ôl.

Ceisiadau newydd. Dim gwrthwynebiad i'r tri canlynol: 1. Newidiadau ac estyniad yn Dedwyddfa, Penrhiw, Bow Street, 2. Newidiadau ac estyniad i annedd yn Bryngwyn Canol, Dolau, 3. Newidiadau ac estyniad i annedd yn Bryngwyn Canol.

Penderfynwyd cefnogi cais Mr Penri James i anfon llythyr at Jane Hutt, gweinidog yn y Cynulliad, yn galw am sefydlu Coleg Milfeddygol yn Aberystwyth. Ar hyn o bryd, does yna yr un yng Nghymru.

Adroddwyd bod caniatâd i godi tai wrth ymyl Cae Rodyn mewn grym bellach, cyn belled bod y garthffosiaeth yn croesi'r afon i'w chysylltu â'r brif bibell. Mynegwyd pryder ar unwaith a fyddai hyn yn golygu agor cwter drwy'r caeau chwarae. Anfonir am eglurhad ar fyrder.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Chwefror. Tynnwyd sylw'r Cyngor bod y siop fwyd parod Greenfield yn Garn House ar agor ar y Sul. Deallir nad oedd hawl gan y cyn perchnogion busnes i fasnachu ar y Sul. Penderfynwyd cael gair gyda'r cwmni presennol.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i rïant.

ytincer@googlemail.com

# TASG Y TINCER



Alison Keegan

Ddaru chi fwynhau'r eira gawsom ni'n ddiweddar? Roedd yn dipyn o sioc i ddeffro a gweld y ffyrdd a'r caeau yn wyn! Sawl dyn eira gafodd ei adeiladu yn ardal *Y Tincer* tybed, a sawl pêl eira gafodd ei thaflu?! Diolch i bawb liwiodd y rhedwr yn neidio dros y glwyd, fel Guto Nyth Brân, y mis diwethaf. Roedd pob un yn arbennig o dda. Dyma pwy anfonodd eu gwaith ata'i:

Daniel Iwan Rees, Brysgaga, Bow Street; Manon Grug Davies, Gilfach Glyd, Goginan; Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor; Garan Rhys Ebenezer Thomas, 61 Butleigh Avenue, Llandaf, Caerdydd; Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, 21 Ffordd yr Afon, Gwaelod-y-garth, Caerdydd.

Ti, Alison sy'n ennill y tro hwn. Llongyfarchiadau!

Mae sawl digwyddiad pwysig yn cael ei ddathlu tua'r amser yma o'r flwyddyn. Ydech chi'n gwybod mai Diwrnod Waitangi yw'r 6ed o Chwefror? Gŵyl yw hon sy'n cael ei dathlu yn Seland Newydd, pryd y cafodd pobl frodorol yr ynysoedd, sef y Maori, hawliau arbennig ar y diwrnod hwnnw yn 1840. Hefyd dathlwn Ddydd Mawrth Ynyd ar 24 Chwefror, sef cychwyn cyfnod y Grawys sy'n arwain at y Pasg. Mae'n siwr eich bod, fel fi, wrth eich bodd yn cael pancws, neu grempog ar y diwrnod hwnnw! Hefyd mae tymor y gêmau rygbi yn cychwyn, ac yn bwysicach na'r un o'r rhain yw'r Ŵyl a ddathlwn ni yng Nghymru, sef dydd gŵyl ein nawddsant: Dydd Gŵyl Dewi.

Faint ydych chi'n ei wybod am Dewi Sant? Roedd yn byw rhwng 520-589. Non oedd enw ei fam a Sandde oedd enw ei dad. Aeth i'r ysgol yn eglwys Henfynyw, sy'n agos i Aberaeron. Enw athro Dewi oedd Peulin,a oedd yn ddall, ond fe wnaeth Dewi roi ei olwg yn ôl iddo!

Mynach oedd Dewi, a sefydlodd ei fynachlog wrth ymyl Tyddewi, mewn lle o'r enw Glyn Rhosyn, yn Sir Benfro. Ydych chi wedi bod yno? Bywyd caled iawn oedd bywyd mynach yn Nhyddewi. Roedd rhaid i bob mynach weithio'n galed yn y caeau, a threulio llawer o amser yn darllen a gweddïo. Dim ond bara a dŵr a fwytai Dewi!

Ydech chi'n gwybod yr hanes am Dewi yn Llanddewibrefi? Un tro, roedd cyfarfod pwysig yno, gan ddenu llawer o bobl. Roedd yn amhosibl i unrhyw un siarad â'r rhain i gyd, gan na fydden nhw'n gallu ei weld na'i glywed. Daeth tro Dewi i bregethu, a phan ddechreuodd bregethu, dyma'r ddaear yn codi dan ei draed! Wel, roedd pawb yn gwrando'n ofalus ar bob gair ar ôl gweld hyn. Wyddoch chi beth oedd neges Dewi? Gofynnodd i'r bobl i geisio cyd-fyw'n hapus a pheidio â chweryla. Am gyngor da!

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o Dewi Sant, heb anghofio'r genhinen Pedr sydd wrth ei draed, wrth gwrs. Anfonwch eich gwaith ata'i i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE) erbyn Mawrth 2il! Ta ta tan toc.



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn


Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore – 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr (duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr – yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 316 | CHWEFROR 2009